# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 27 Tachwedd 2024 |
| **Amser:** | 10:00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes,*
*June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,*
*John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Brian Angell, Tim Jones,*
*Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd.*

# R H A G L E N


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 2. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes. | |
| 3. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024 a 11 Medi 2024 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. (Copi yma). | 1 - 8 |
| 4. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 9 - 11 |
| 5. | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) | 12 - 40 |
| 6. | **Canolfannau Croeso – Adroddiad Blynyddol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy. (Copi yma) | 41 - 51 |
| 7. | **Diweddariad Amcanion Gwella**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | 52 - 91 |
| 8. | **Diweddariad Grantiau Ariannu Allanol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.<br>(Copi yma) | 92 - 105 |
| 9. | **Adroddiad Iechyd a Diogelwch**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch. (Copi yma) | 106 - 113 |
| 10. | **Cynllun Archwilio Ariannol 2022.23**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Archwilio (Copi yma) | 114 - 134 |
| 11. | **Cyflwyno'r cofnodion canlynol er gwybodaeth**<br>Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 20 Medi 2024. (Copi yma) | 135 - 137 |

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
**DYDD MERCHER 10fed GORFFENNAF 2024**

***YN BRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall;

**Aelod wedi ei benodi gan Lywodraeth Cymru**
Sarah Hattle;

**Swyddogion**
G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Bethan Hughes, Nia Murray, Dewi Morgan, Sian Owen, Etta Trumper, Angela Jones, Ioan Gwilym, Anwen Gaffey.

**Yn bresennol**
Euros Lake - Archwilio Cymru.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig y Cynghorydd Elfed Powell Roberts fel Cadeirydd.
   **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elfed Powell Roberts yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**
   Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth. Cydnabu hefyd fod Iwan Jones yn mynychu'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Prif Weithredwr Dros Dro. Nododd yr Aelodau hefyd fod y cyfarfod yn treialu'r cyfleusterau yn y Pencadlys ym Mhenrhyndeudraeth, a gwahoddodd swyddogion adborth pellach gan yr Aelodau hynny a oedd yn mynychu o bell.

2. **Is-Gadeirydd**
   Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr Aelodau ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig y Cynghorydd Annwen Hughes fel Is-Gadeirydd.
   **Etholwyd y Cynghorydd Annwen Hughes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**
   Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Ymddiheuriadau**
   Y Cynghorydd Louise Hughes, Einir Wyn Williams, Dilwyn Owain Roberts; Brian Angell, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd.

4. **Datgan Budd**
   Datganodd Iwan Jones a Jonathan Cawley fudd yn eitem 12 ar yr Agenda a gadawsant y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fawrth 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cofnod cywir.
Yn codi wedi hynny,
Eitem 14 – Proses Recriwtio Prif Weithredwr APCE (Swyddog y Parc Cenedlaethol).
Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr Aelodau y dylid anfon ymholiadau gan ymgeiswyr posibl ar gyfer swydd wag y Prif Weithredwr at Steffan Jones yn Goodson Thomas (anfonwyd e-bost diweddar gyda manylion cyswllt at yr Aelodau). Byddai hyn yn osgoi unrhyw wrthdaro posibl pan fydd yr Awdurdod yn penodi Prif Weithredwr newydd ar yr 2il o Hydref 2024.

6. **Cofnod o Gamau Gweithredu**
Cyflwynwyd – Cofnod o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 14.07.21
Cam Gweithredu 9: Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri
Cynghorodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y cam gweithredu bellach wedi'i gwblhau ac y gellid ei ddileu o'r Cofnod Camau Gweithredu.

Yn codi wedi hynny, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r Panel Craffu yn parhau â'i waith a bod cyllid wedi'i glustnodi i gyflogi Swyddog Carbon. Bydd adroddiad cynnydd ar y Strategaeth Garbon yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau'n flynyddol.

Cyfarfod Awdurdod 12.07.23
Cam Gweithredu 7: Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru
Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol.

Cyfarfod Awdurdod 29.11.23
Cam Gweithredu 8 – Arallgyfeirio Incwm
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Camau Gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariadau i'r Cofnod Camau Gweithredu.**

7. **Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro i'r Aelodau drafod a chymeradwyo'r "Ymateb Sefydliadol" i'r adroddiad uchod.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro ymateb yr Awdurdod, fel y'i cyflwynwyd yn flaenorol i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 12fed o Fehefin 2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau pellach. Cynghorodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod un sylw wedi dod i law mewn perthynas ag 'A2: Sicrhau bod enwebiadau ar gyfer aelodau'n cefnogi llywodraethu da'. Nododd yr Aelod, er ei fod yn cytuno mai CLlLC a Llywodraeth Cymru sydd â'r prif gyfrifoldeb, gofynnodd a fyddai'n ddarbodus i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael eu gwahodd i roi eu mewnbwn i'r adolygiad ar y protocol ar gyfer enwebiadau. Cyfeiriodd at hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar lywodraethu lle'r oeddent yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng cynghorwyr sy'n eistedd ar Awdurdod Parc Cenedlaethol yn hytrach nag un o bwyllgorau'r Cyngor a dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn unrhyw waith ailddrafftio o'r protocolau. Cynghorodd y Prif

Weithredwr Dros Dro y byddai'n hapus i weithio gydag Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i gryfhau'r elfen hon.

Yna croesawodd y Cadeirydd Euros Lake o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Hysbyswyd yr Aelodau gan fod hwn yn ddull gweithredu cymharol newydd, roedd Archwilio Cymru yn bresennol i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau i'r ymatebion a dderbyniwyd i'w pedwar argymhelliad.

Ymateb i A1 - er y cytunir bod parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i alluogi hyfforddiant thematig i’r holl Aelodau i’w ganmol, roedd Archwilio Cymru yn parhau i fod o’r farn nad oedd ymateb y sefydliad yn mynd i’r afael yn uniongyrchol â’r hyn sydd ei angen ac nad oedd yn rhoi digon o sicrwydd y byddai hyn yn digwydd.

Cytunodd yr Aelodau a’r swyddogion :-
A1 – i fynd i’r afael â’r materion a godwyd gan Archwilio Cymru.

Ymateb i A2 – Croesawodd Archwilio Cymru y cynnig i weithio gyda Llywodraeth Cymru a CLlLC ar y protocolau, a thra bod yr ymateb yn datgan nad oedd y materion hyn o fewn rheolaeth yr Awdurdod, maent yn berthnasol i’r Awdurdod gan fod ganddo rôl i lywodraethu’n effeithiol.

Cytunodd yr Aelodau a’r swyddogion:-
A2 – i ymgorffori awgrym yr Aelodau fel yr amlinellwyd uchod a diwygio'r ymateb fel ei fod yn darllen y byddai'r Parciau Cenedlaethol yn 'croesawu'r cyfle' yn hytrach na 'bod yn fodlon' i gyfrannu at edrych ar y protocolau a hybu ymwybyddiaeth o'u defnydd. Hefyd, diwygio'r ymateb i ddarllen “ddim o dan reolaeth yr Awdurdod” yn hytrach na “ddim yn berthnasol i'r Awdurdod.”

Ymateb i A3 – derbyniwyd ymateb yr Awdurdod.

Ymateb i A4 – roedd ymateb yr Awdurdod yn nodi nad oedd yr adroddiad yn darparu tystiolaeth pam nad oedd y system Lywodraethu yn addas i'r diben. Roedd Archwilio Cymru yn hyderus bod yr adroddiad yn rhoi sail i'r dystiolaeth a oedd yn gynhwysfawr ac yn derfynol.

Cytunodd yr Aelodau a’r swyddogion :-
A4 – nad oedd angen newid ymateb yr Awdurdod.

Yn codi wedi hynny, tra bod peth anfodlonrwydd gyda'r argymhellion yn yr adroddiad, cydnabu'r Aelodau'r angen i weithio gyda'r cyrff eraill ac y dylid addasu'r ymateb i adlewyrchu hyn.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad.**
2. **yn ddarostyngedig bod ymateb y sefydliad fel yr amlinellwyd uchod yn cael ei ddiwygio, derbyn yr argymhellion fel y'u nodwyd.**

8. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2023/24**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn cymharu cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2023/2024 a'r gwariant alldro gwirioneddol am y flwyddyn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad yn manylu ar y trosglwyddiadau o’r cyllidebau refeniw a chyfalaf, i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Cynghorwyd yr Aelodau nad oedd y ffigurau a gyflwynwyd ym mharagraff 5.2 yr

adroddiad yn gyfredol a bod y tabl yn Atodiad 5 yn rhoi'r wybodaeth gywir. Hefyd, dylai paragraff 6.1 o'r adroddiad Cymraeg gyfeirio at y balans yn 31/03/2023 yn y golofn gyntaf, a 31/03/2024 yn y drydedd golofn a bydd yn cael ei gywiro.

Manteisiodd y Prif Swyddog Cyllid ar y cyfle i ddiolch i'r Swyddog Cyllid a'i thîm am eu gwaith dan gyfyngiadau amser difrifol a phwysau gwaith.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad alldro a chymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a amlinellwyd yn rhan 4 (fel y manylir yn Atodiad 1).**
2. **cymeradwyo'r trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd a glustnodwyd fel yr amlinellir yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
3. **nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a'r gwasanaethau o ran rheolaeth gyllidebol (paragraffau 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2).**
4. **cymeradwyo'r dyraniad llithriant ac ymrwymiadau (£299,730) yn Atodiad 4.**
5. **cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2023/24 i'r Gronfa Caledi Ariannol Wrth Gefn, yn hytrach na chynyddu Balansau Cyffredinol yr Awdurdod.**
6. **cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

9. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg ac amlinellodd y prif newidiadau i'r gofrestr.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg a derbyn y newidiadau fel yr amlinellwyd.**

10. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2023: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu, ynghyd ag adroddiad blynyddol ar ddangosyddion perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a chynnydd ar y cynllun gweithredu.

Adroddwyd – Ymddiheurodd y Pennaeth Cyfathrebu nad oedd yr adroddiad blynyddol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mawrth yn ôl y disgwyl. Roedd hyn oherwydd ailstrwythuro'r adain yn 2023, aelod allweddol o'r tîm yn gadael cyflogaeth yr Awdurdod, a'r gwaith ychwanegol yn deillio o archwiliad allanol gan Lywodraeth Prydain. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i Helen Pye, y cyn-Bennaeth Ymgysylltu am ei gwaith yn paratoi'r strategaeth a fu'n sail i'r gwaith hwn. Cyflwynodd y Pennaeth Cyfathrebu yr adroddiad, y cefndir ac Adroddiad Cynnydd 2023 yn fanwl.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a'r strategaeth a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Croesawodd Aelod lefel yr ymgysylltu yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod i ddefnyddio enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri.
- Trafododd Aelodau a Swyddogion y cydbwysedd bregus o ddarparu gwybodaeth gynaliadwy a chyson heb hyrwyddo mwy o dwristiaeth.
- Nododd yr aelodau y byddai ymgyrch eleni yn canolbwyntio ar ailgyfeirio ymwelwyr i ardaloedd y tu allan i'r 'potiau mêl' / ardaloedd prysuraf sydd â'r seilwaith

angenrheidiol. Croesawodd y Pennaeth Cyfathrebu y cyfle i drafod hyn ymhellach gyda'r Cynghorydd John Pughe Roberts sydd â phrofiad o fentrau tebyg yn ardal Dinas Mawddwy.
- Nododd yr Aelodau lwyddiant menter Sherpa a dywedwyd wrthynt y byddai adroddiad diweddaru ar drafnidiaeth yn cael ei gyflwyno yn yr hydref.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2023: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
2. **y byddai adroddiad ar yr adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol.**

11. **Adroddiad Monitro Cwynion**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau.

**PENDERFYNWYD croesawu'r adroddiad cadarnhaol a nodi ei gynnwys.**

12. **Datganiad Polisi Tâl 2024/25 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl 2023/24**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol er mwyn i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r cefndir ar ran y Pennaeth Adnoddau Dynol, a oedd yn absennol o'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**
1. **cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25.**
2. **cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2023/24.**

13. **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2023**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ac i ddiweddaru'r Aelodau ar gynnydd Strategaeth Gwirfoddoli 2021-26.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant yr Adroddiad Blynyddol a rhoddodd y cefndir ac adroddiad cynnydd i'r Aelodau.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr Adroddiad Blynyddol a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-
- diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant am baratoi'r ddogfen a oedd yn hawdd ei darllen a'i deall.
- croesawodd yr aelodau'r ddogfen a'r cynnydd a wnaed gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant wrth ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli.
- manteisiodd Aelod hefyd ar y cyfle i ddiolch i 'Caru Eryri' am eu gwaith gwirfoddoli.
- cytunodd y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant i ymchwilio i weld a allai gwirfoddolwyr cymwys elwa o hyfforddiant ychwanegol a allai arwain at gyflogaeth barhaol yn y pen draw.
- cadarnhaodd y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant y byddai'r Awdurdod yn croesawu ceisiadau gan grwpiau lleol ac y dylai Aelodau eu hannog i wneud cais. Ceir manylion ar sut i wneud cais ar wefan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2023.**

14. **Adroddiad Cryno Cynllun Yr Wyddfa 2024**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa i roi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd a gyflawnwyd gan Gynllun Yr Wyddfa ers ei lansio yn ystod 2018, ac i hysbysu'r Aelodau am y broses ar gyfer adolygu'r cynllun.

Adroddwyd – Cyflwynodd Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa yr adroddiad a'r cefndir, a rhoddwyd rhagor o fanylion i'r Aelodau ar brosiectau allweddol. Manteisiodd Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa ar y cyfle i ddiolch i'r holl bartneriaid a'r staff am eu gwaith a'u cydweithrediad dros y 6 mlynedd diwethaf.

Yn codi wedi hynny, cytunodd Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa i gysylltu â'r swyddog perthnasol i roi gwybod bod y tri arhosfan Sherpa yn Waunfawr wedi'u henwi'n anghywir.

**PENDERFYNWYD**

1. **derbyn Adroddiad Cryno Cynllun Yr Wyddfa fel adroddiad cynnydd ar waith y bartneriaeth ers lansio Cynllun Yr Wyddfa yn ystod 2018.**
2. **nodi bod y broses o adolygu Cynllun Yr Wyddfa wedi dechrau, ac y bydd yr Aelodau'n derbyn diweddariadau llawn a rheolaidd gyda chyfleoedd pellach i gyfrannu at y broses.**

15. **Dymuniadau Gorau ar gyfer Ymddeoliad**

Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ddymuniadau gorau i Anwen Gaffey, Swyddog Gwasanaethau'r Aelodau, a oedd yn ymddeol ar ôl 35 mlynedd gyda'r Awdurdod. Mynegodd y Cadeiryddion a'r Aelodau eu gwerthfawrogiad am ei gwasanaeth gwerthfawr gan ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddi.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.05**

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 11eg O FEDI 2024
Plas Tan y Bwlch

***YN BRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd;

**Aelod wedi ei benodi gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Tim Jones, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
G. Iwan Jones, Nia Murray, Dewi Morgan, Eifion Jones.

**Yn bresennol**
Steffan Jones a Catrin Taylor o Goodson Thomas.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

Croesawodd y Cadeirydd Nia Murray, y Pennaeth Adnoddau Dynol, Steffan Jones a Catrin Taylor (Goodson Thomas) i'r cyfarfod.

1. **Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Louise Hughes, June Jones, Dilwyn Owain Roberts, Jo Nuttall; Naomi Luhde-Thompson.

2. **Datgan Diddordeb**
Ni wnaed unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. **Recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE – Pecyn Rhestr Fer**
**Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau**
Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol argymhelliad i eithrio'r adroddiad, "Recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE – Pecyn Rhestr Fer" am ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:
    - berthnasol i unigolyn penodol,
    - debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn dan sylw,
    - ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr awdurdod oedd yn dal y wybodaeth honno.

***Argymhellwyd*** – y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cytuno i eithrio'r adroddiad "Recriwtio Prif Weithredwr APCE – Pecyn Rhestr Fer".

***Penderfynwyd*** derbyn yr argymhelliad

---

**RHAN 2**

4. **Recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Panel Penodi wedi cyfarfod ar y 4ydd o Fedi dan gadeiryddiaeth Tim Jones, ac wedi penderfynu ar argymhelliad.

Adroddodd Cadeirydd y panel hwnnw ar y penderfyniad, gan ddechrau trwy ddiolch i Steffan Jones a Catrin Taylor o Goodson Thomas am eu gwaith.

Esboniodd fod y panel wedi mynd trwy'r Pecyn Rhestr Fer yn fanwl, eu bod wedi dewis rhai o'r rhestr fer i gael eu cyfweld ar ôl iddynt sefyll profion seicometrig. Wedi trafodaeth daeth y panel i benderfyniad unfrydol ynghylch pwy ddylid cael eu cyfweld.

Rhoddwyd 10 enw ymlaen gerbron yn y pecyn rhestr fer, ac awgrymodd y pecyn bump o'r deg fel rhai y dylid eu cyfweld.

O'r pump, dewiswyd tri ymgeisydd gan y Panel i'w cyfweld.

Nododd fod y Panel o blaid cyfweld y cyntaf oherwydd ei phrofiad a'i chefndir, ei bod wedi gweithio ar lefel uchel, ac yn gyfarwydd â'r ardal a'r Parc. Nododd fod y panel o blaid cyfweld yr ail oherwydd ei fod eisoes wedi gweithio ar lefel prif weithredwr, yn adnabod yr ardal, ond bod ychydig o bryder ynglŷn â'i brofiad o'r Parc. Nododd hefyd fod y trydydd yn adnabyddus gan bawb yn y cyfarfod.

Nododd yn ogystal fod gan un o'r ymgeiswyr eraill gefndir yn y maes, ond nid o lefel uchel fel oedd gan y lleill; a bod gan y pumed ymgeisydd hefyd gefndir da, ond nid yn y maes ac nid i gorff o'r maint yma.

Cynigiodd felly bod y tri cyntaf yn cael eu cyfweld.

Eiliodd Aelod y cynnig a diolchodd hefyd i Goodson Thomas am eu gwaith.

Diolchodd Steffan Jones am y cyfle i weithio gyda'r Parc a dywedodd eu bod wedi mwynhau'r gwaith.

Gofynnodd Aelod beth oedd y cam nesaf yn y broses a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod llawn yn cyfweld y tri ymgeisydd ar yr ail o Hydref.

***Argymhellwyd:* –** gwahodd y tri ymgeisydd a argymhellwyd gan y Panel Penodi i'w cyfweld, wedi iddynt sefyll profion seicometrig.

***Penderfynwyd*** derbyn yr argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.40**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri | **PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.** | Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri. | JC | Trafodwyd Strategaeth Carbon Isel Drafft gan Grŵp Llywio Cyfrif Carbon a'i chyflwyno i'r Aelodau yn ystod cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod ar 12 Mehefin 2024. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n ofynnol yn yr adolygiad o'r CDLl a Chynllun Eryri ochr yn ochr ag arweinyddiaeth ac eiriolaeth yr Awdurdod nawr ei fod wedi ymrwymo â'r fenter "Ras i Sero". Mabwysiadodd yr Aelodau'r Strategaeth fel y'i cyflwynwyd. | **IA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 12.07.2023

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru | **PENDERFYNWYD aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.** | Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i baratoi adroddiad. | PW | Adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd '23. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar arallgyfeirio incwm yn dilyn adroddiad 3 APC ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru. Cyflwynwyd adroddiad penodol ar reolaeth Plas Tan y Bwlch i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 29.11.2023

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Arallgyfeirio Incwm | **PENDERFYNWYD gohirio rhagor o waith ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad Archwilio Cymru.** | Y Prif Weithredwr i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad maes o law. | PW | Mae swyddogion wedi cwblhau rhestr wirio hunanasesu. | |

**EITEM RHIF 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 27 Tachwedd 2024 |
| **TEITL** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r<br>Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y sector gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn ychwanegol at y ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

1.2 O dan y dyletswyddau penodol, mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru baratoi Adroddiad Blynyddol erbyn 31ain o Fawrth bob blwyddyn.

1.3 Mae'n rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol nodi'n benodol:

- y camau y mae'r Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
- y cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod; a
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl.

1.4 Mae'r adroddiad blynyddol sydd ynghlwm yn nodi cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2023-24 i ddiwallu'r dyletswyddau ychwanegol hyn yng Nghymru.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

## 3. PAPURAU CEFNDIR

3.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2023-24.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2023 – 24

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad ........................................................................ 3

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol.................... 4

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru.................................. 6

4. Beth a Gyflawnwyd .......................................................... 7

5. Hyfforddiant........................................................................ 23

6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ..................................... 24

7. Gwybodaeth Cyflogaeth .................................................. 25

## 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus. Mae’n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i’r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy’n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy’n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

## Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr o nodweddion sydd i'w diogelu sy’n disodli amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafriaeth.

## Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i’r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae’r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau tâl

- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod 2020-24 yn ffurfiol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 15fed o Orffennaf 2020.

## 2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael o Gyfrifiad y DU 2021 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er bod cyfanswm poblogaeth Cymru gyfan wedi cynyddu 44,000 (1.4%) i 3,107,500, yn Eryri gostyngodd maint y boblogaeth o 25,702 yn 2011 i 24,418 yn 2021 – gostyngiad o bron i 5%.

Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi crynodebau pwnc ar:

- Demograffeg a mudo
- Yr Iaith Gymraeg
- Grwpiau ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd
- Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU
- Tai
- Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- Addysg
- Iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Mae yna hefyd setiau data aml-amrywedd ar gael sy'n ein galluogi i gyfuno gwahanol newidynnau ac edrych ar y berthynas rhwng y data ar gyfer aelwydydd yn Eryri. Bydd hwn yn ddata pwysig i nodi'r croestoriadedd sy'n allweddol wrth archwilio amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac mae'n crynhoi'r anghydraddoldebau canlyniad allweddol y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu.

Yn ogystal, comisiynodd Rwydwaith Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (ariannwyd trwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol) dadansoddiad pellach o ddata'r Cyfrifiad a data perthnasol arall, i ddarparu adroddiad data lleol sy'n fwy perthnasol a manwl gywir.

Gwybodaeth ac Ymgysylltu
Yn ystod 2023/24, parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol drwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd ar-lein, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori a gwybodaeth personol.

Y tu allan i'r ymgynghoriadau uniongyrchol arferol ar fusnes yr Awdurdod sydd wedi'u cynnal eleni, mae ymgysylltu ac ymgynghori hefyd wedi digwydd gyda chymunedau lleol i alluogi rhannu gwybodaeth ac i roi cyfle i bobl roi eu barn ar heriau niferus mae'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac ei gymunedau yn ei wynebu.

Un o'r heriau hynny yw argaeledd tai fforddiadwy i bobl yn Eryri, oherwydd y ganran gynyddol o'r farchnad dai a ddefnyddir gan ail gartrefi a llety gwyliau. Mae hyn yn cael effaith ddeublyg o leihau'r stoc tai a chodi prisiau. Cynhyrchodd y gwasanaeth polisi cynllunio papur tystiolaeth a edrychodd yn fanwl ar y mater hwn a'i effaith ar gymunedau Eryri. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a'r materion sy'n ymwneud â gweithredu Cyfarwyddiadau Erthygl 4, fel rhan o gyfres o declynnau i ddylanwadu ar y farchnad dai lleol, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar raddfa fawr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Derbyniodd pob deiliad tŷ o fewn Eryri ohebiaeth ar y mater gan eu gwahodd i gymryd rhan a mynegi eu barn.

## 3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 7 amcan lefel uchaf, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 7 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella.
2. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.
3. Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion a ddiogelir.
4. Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.
5. Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder**.
6. Byddwn yn cynyddu mynediad at **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth ein **penderfyniadau**.
7. Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod hwn gydag Amcan Cydraddoldeb ychwanegol:

8. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Yn sgil swyddogaeth a dyletswyddau penodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ychydig iawn, os unrhyw ddylanwad sydd gennym ar rai o'r amcanion a'r meysydd gweithredu hyn. Fodd bynnag, mae'n bosib gwneud cyfraniadau cadarnhaol trwy gyfrwng meysydd gwaith unigol, a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau ar draws Gogledd Cymru.

## 4. Beth a Gyflawnwyd

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Asesu, gwerthuso, monitro a chymryd y camau sydd ar gael i ymateb i'r data ar y bwlch tâl rhyw yn flynyddol. | Bydd y data a gasglwyd yn llywio unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol. | Rhyw | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**

Sefydlodd data ar gyfer 31.03.2012 y llinell sylfaen a oedd yn seiliedig ar gyfraddau canolrif yr awr, megis:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£13.61** | **£12.77** | **£12.77** | **Dim** | **Dim** |
| **Rhan Amser** | **£8.00** | **£8.00** | **£8.00** | **Dim** | **Dim** |
| **Holl Staff** | **£12.77** | **£8.72** | **£9.91** | **£1.19** | **£4.05** |

Mae data ar gyfer 31.03.2023 wedi'i osod islaw:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£15.60** | **£15.60** | **£15.60** | **NIL** | **NIL** |
| **Rhan Amser** | **£10.39** | **£10.81** | **£10.81** | **NIL** | **NIL** |
| **Holl Staff** | **£15.60** | **£13.18** | **£13.44** | **0.26c** | **£2.42** |

Mae data ar gyfer 31.03.2024 wedi'i osod islaw:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£17.62** | **£17.62** | **£15.45** | **NIL** | **NIL** |
| **Rhan Amser** | **£12.40** | **£12.82** | **£12.82** | **NIL** | **NIL** |
| **Holl Staff** | **£17.55** | **£15.39** | **£15.45** | **0.06p** | **£2.16** |

Mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigwr CANOLRIF (MEDIAN).

Mae Canllawiau ACAS ar Reoli Adrodd ar Dâl Rhyw yn nodi y gellir gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio dau fath o gyfartaledd:

- Mae cyfartaledd cymedrig yn cynnwys adio'r holl rifau a rhannu’r canlyniad â faint o rifau oedd ar y rhestr.
- Mae cyfartaledd canolrif yn cynnwys rhestru'r holl rifau mewn trefn rifiadol. Os oes odrif o ganlyniadau, y cyfartaledd canolrifol yw'r rhif canol. Os oes eilrif o ganlyniadau, y canolrif fydd cymedr y ddau rif canolog.

Mae defnyddio'r ddau fath gwahanol hyn o gyfartaledd yn ddefnyddiol i roi trosolwg mwy cytbwys o fwlch cyflog cyffredinol cyflogwr:

- Mae cyfartaleddau cymedrig yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn gosod yr un gwerth ar bob rhif y maent yn ei ddefnyddio, gan roi arwydd cyffredinol da o’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond gall cyfraddau tâl neu fonysau mawr neu fach iawn dra arglwyddiaethu dros bethau ac ystumio’r ateb. Er enghraifft, gall cyfartaleddau cymedrig fod yn ddefnyddiol mewn sefydliad lle mae mwyafrif helaeth y tâl bonws yn cael ei dderbyn gan nifer fach o aelodau bwrdd.
- Mae cyfartaleddau canolrif yn ddefnyddiol i nodi beth yw’r sefyllfa ‘nodweddiadol’ h.y. yng nghanol y sefydliad ac nid ydynt yn cael eu hystumio gan gyfraddau tâl mawr neu fach iawn o fonysau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd pob mater bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei godi. Er enghraifft, gallai cyfartaledd canolrif ddangos gwell arwydd o fwlch cyflog 'canol y ffordd' mewn clwb chwaraeon gyda chyfartaledd cymedrig wedi'i ystumio gan chwaraewyr â chyflog uchel iawn ac aelodau bwrdd, ond gallai hefyd fethu â chodi mor effeithiol lle. Mae'r materion bwlch cyflog yn fwyaf amlwg ymhlith y gweithwyr ar y cyflog isaf neu'r cyflog uchaf.

Isod mae'r data a gyfrifir ar gyfartaleddau CYMEDRIG (MEAN)

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.23, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £16.82 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £15.64. Mae hyn yn rhoi bwlch cyflog o 7.27%.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.03.24, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £17.98 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £16.43. Mae hyn yn rhoi bwlch o 8.62%.

Yn ystod y cyfnod adrodd gadawodd 7 o fenywod yr Awdurdod, ac ni chafodd eu rolau eu llenwi o gwbl neu cawsant eu disodli gan fenywod yn dechrau ar y raddfa gyflog is o’r un raddfa sy’n cyfrif am gynnydd o 1.35% yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y cyfnod adrodd hwn.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau ar weithio hyblyg. | Bydd polisi teg ac effeithiol yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mae rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ac er mwyn aros yn y gwaith. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ddau bolisi arwyddocaol gyda'r nod o wella hyblygrwydd yn y gweithle. Y cyntaf yw Polisi Gweithio Hybrid newydd yr Awdurdod, sydd wedi'i gynllunio i gefnogi cyfuniad o waith mewn swyddfa ac o bell ar gyfer gweithwyr cymwys.

Yn ogystal, lansiwyd polisi prawf 12 mis, y cyfeirir ato fel "Super-Flexi", i ehangu hyblygrwydd o fewn polisi amser FFLECSI presennol yr Awdurdod. Mae'r treial hwn yn cynyddu lefel yr hyblygrwydd sydd ar gael i staff drwy ddileu'r gofyniad am oriau gwaith craidd, gan gynnig mwy o ymreolaeth wrth gefnogi cydbwysedd gwaith/bywyd.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Mi fyddwn yn cyhoeddi data perthnasol ar gyflogaeth a hyfforddiant mewn taenlen data agored ar ein gwefan yn flynyddol. | Bydd y data yn gallu dangos pa gynnydd a wnaed. Mae taenlen data agored yn galluogi mwy o rwyddineb wrth gymharu â meincnodi gyda chyrff cyhoeddus eraill. | Pawb - fodd bynnag mae data cyflogaeth yn anghyflawn ar gyfer yr holl nodweddion a ddiogelir, a lle maent ar gael, efallai na fyddant yn cael eu cyhoeddi oherwydd y niferoedd bychan. | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Cwblhawyd. Crëwyd a chyhoeddwyd taenlen ffynhonnell data agored sy'n cynnwys yr holl ddata cyflogaeth berthnasol ar gyfer 2023/24.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb. | Asesu’r anghenion hyfforddi a threfnu hyfforddiant fel sy’n briodol. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Mae modiwlau hyfforddiant cydraddoldeb ar gael trwy ELMS (System Rheoli Dysgu Electronig), platfform a ddefnyddir ar draws y Parciau Cenedlaethol.  Mae'r modiwlau hyn wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg gan yr Awdurdod er mwyn sicrhau bod staff ac Aelodau'n gallu cael mynediad atynt yn eu dewis iaith.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy’n rhoi cymorth i staff sy’n mynd trwy’r darfyddiad (menopôs). | Cefnogir lles y staff a effeithir arnynt yn uniongyrchol. | Pawb, yn arbennig rhyw | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol Bolisi Menopos ar gyfer yr Awdurdod, gyda'r nod o ddarparu cefnogaeth a dealltwriaeth hanfodol i weithwyr sy'n profi menopos neu berimenopos, yn ogystal ag i staff ag aelodau o'r teulu sy'n mynd drwy'r camau hyn. Mae’r polisi’n cynnig mewnwelediad gwerthfawr i’r heriau corfforol ac emosiynol sy’n gysylltiedig â menopos a perimenopos, tra hefyd yn cyfeirio at yr adnoddau sydd ar gael i’r rhai sy’n ceisio arweiniad. Yn ogystal, mae'n amlinellu addasiadau rhesymol yn y gweithle y gellir eu gweithredu, os oes angen, i helpu gweithwyr yr effeithir arnynt i reoli eu symptomau a chynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno polisi a / neu ganllawiau sy’n rhoi cymorth i staff sy’n profi camdriniaeth ddomestig. | Yn cefnogi lles y staff yr effeithir arnynt yn uniongyrchol. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Ni wnaed unrhyw gynnydd yn ystod 2023/24 oherwydd bod polisïau eraill yn cael blaenoriaeth. Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol ar hyn o bryd yn ysgrifennu polisi gyda'r nod o gefnogi aelodau staff a allai fod yn profi cam-drin domestig.

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal ar bob polisi, cynllun neu brosiect newydd neu ddiwygiedig, ac y cymerir camau priodol i ymateb i unrhyw effeithiau negyddol a nodir. | Bydd asesiadau effeithiol yn sicrhau fod yr holl bolisïau a chynlluniau yn deg. Bydd asesiadau yn sicrhau fod pob prosiect newydd yn rhoi ystyriaeth i faterion hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf. | Pawb | Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Prosiectau a Swyddogion sy'n arwain. |
| **Adroddiad Diweddaru 2023/24:** Mae'r holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisïau newydd neu ddiwygiedig wedi cael Sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod 2023/24. Mae asesiadau llawn wedi'u cynnal ar yr holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisïau sydd â'r potensial i gael effaith negyddol ac anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ac os yw'n briodol mae mesurau lliniaru wedi'u nodi a'u rhoi ar waith. | | | |
| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
| Sicrhau fod pob digwyddiad a gweithgaredd a drefnir gan yr Awdurdod ar gyfer y cyhoedd yn gynhwysol a bod asesiad hygyrchedd wedi cael ei wneud. | Bydd hyn yn sicrhau cyn belled â phosib na fydd unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan. | Pawb | Trefnwyr digwyddiadau |
| **Adroddiad Diweddaru 2023/24:** Mae ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau allanol wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf (e.e., teithiau cerdded, yoga coetir, digwyddiadau a gweithgareddau addysgol plant a phobl ifanc ac ati). Mae pob trefnydd digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hasesu'n llawn ar gyfer hygyrchedd ar yr un pryd ag y cynhelir yr asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod pob cyfranogwr a oedd am gymryd rhan yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.<br><br>Roedd digwyddiadau cyhoeddus ar-lein yn cynnwys cyfleusterau cyfieithu i alluogi pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i gymryd rhan yn llawn a deall cyfraniad pawb.<br><br>Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, gwahoddiadau ac ati yn gwbl ddwyieithog bob amser. | | | |

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Cynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy bolisïau effeithiol yng NghDLl Eryri a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy.</td><td>Mae argaeledd tai fforddiadwy yn bwysig i gefnogi'r gymuned leol.</td><td>Pawb</td><td>Cyfarwyddwr Cynllunio & Rheolwr Cynllunio</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:<br>Heb os, mae'r tîm Polisi Cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector. Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau tai, yr Hwylusydd Tai Gwledig a'r Awdurdodau Tai yng Nghynghorau Gwynedd a Chonwy.<br><br>Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r targed a osodwyd yn y CDLl o ddarparu 25 o unedau tai fforddiadwy y flwyddyn wedi'i fethu. Mae’n bosibl bod llawer o ffactorau ar waith yn hynny o beth – hinsawdd economaidd heriol, natur wledig iawn rhai safleoedd, ac asiantaethau eraill yn canolbwyntio ar safleoedd llai ymylol / mwy hyfyw.<br><br>Bydd swyddogion yn parhau i weithio i fynd i’r afael â’r materion hyn, a bydd y materion hyn yn cael sylw pellach pan ddaw’n amser i adolygu’r CDLl yn 2025.</td></tr>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Sicrhau mewnbwn gan gynrychiolwyr o grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir yn gynnar yn y broses, wrth ddylunio adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau presennol.</td><td>Sicrhau fod adeiladau’r Awdurdod yn hygyrch i bawb.</td><td>Pobl Anabl</td><td>Pennaeth Eiddo a Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:<br>Nid godwyd unrhyw adeiladau newydd ac ni wnaed unrhyw waith adnewyddu sylweddol a oedd yn cynnwys newidiadau i fynediad pobl a’r defnydd o adeilad ar adeiladau’r Awdurdod yn ystod 2023/24.</td></tr>
</table>

**Amcan**: Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau fod y grŵp Iechyd a Lles Staff sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar, yn cyflawni gweithrediadau / newidiadau cadarnhaol i gefnogi staff. | Bydd gweithrediadau cadarnhaol yn cefnogi iechyd a llesiant staff. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Ym mis Ionawr 2024, lansiodd y Pennaeth Adnoddau Dynol 'Fforwm Ymgysylltu a Lles Staff' i hybu iechyd, lles a chydweithio ar draws staff yr Awdurdod. Mae'r fforwm, a fydd yn cyfarfod bob chwarter, yn cynnwys cynrychiolwyr staff o bob gwasanaeth a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth AD, gyda chynrychiolydd uwch reolwyr yn bresennol i roi trosolwg o'r Awdurdod cyfan. Yn y cyfarfod agoriadol, cyflwynwyd nifer o fentrau, gan gynnwys darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn toiledau staff a gosod siart gwirio lliw wrin i gefnogi iechyd staff.

Yn ogystal, sefydlwyd wal ddiolchgarwch yn y swyddfa, yn annog staff i rannu negeseuon am bethau y maent yn ddiolchgar amdanynt, gyda'r nod o ledaenu positifrwydd ledled y gweithle. Wrth symud ymlaen, bydd y fforwm, mewn cydweithrediad â'r tîm AD, yn parhau i archwilio a gweithredu amrywiol fentrau iechyd a lles.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; i weithio gydag amryw o bartneriaid a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i dreialu o leiaf 1 cynllun rhagnodi cymdeithasol. | Mi fydd cynllun rhagnodi cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y cyfranogwyr. | Pawb, ond pobl anabl yn benodol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Mae'r cynllun hwn wedi cwblhau ei ail flwyddyn lawn yn dilyn y peilot cychwynnol a gynhaliwyd yn 2021/22; ac mae wedi mynd o nerth i nerth.

Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle i'r cyhoedd archwilio'r buddion lles y gall gweithgareddau fel ioga, cerdded gyda myfyrdodau tywys ac Ysgolion Coedwig eu cael pan fyddant yn cael eu gwneud yn yr awyr agored. Roedd y sesiynau ar gael i unrhyw un am ddim. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu trwy gyfryngau cymdeithasol, a thrwy feddygfeydd meddygon teulu gyda'n cysylltiadau

trwy'r is-grŵp Iechyd Gwyrdd a drefnir gan BIPBC. Yr unig gost o gynnal y gweithgareddau hyn oedd talu'r hwyluswyr.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; hyrwyddo a galluogi amryw o weithgareddau gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, a fydd yn gwella llesiant pobl. | Bydd cynyddu'r cyfleoedd ar gael a'u hyrwyddo'n eang, yn rhoi fwy o gyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a'u llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Mae swm sylweddol o gyfleoedd newydd a pharhaus yn cael eu datblygu/cefnogi gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant trwy roi'r Strategaeth Gwirfoddoli a Llesiant ar waith.

Mae Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa a Chader Idris wedi gwneud gwahaniaeth hynod gadarnhaol unwaith eto o ran patrolio'r llwybrau a rhoi cyngor hanfodol i gerddwyr, yn ogystal â chlirio sbwriel o'r llwybrau. Yn ystod tymor 2023 mae 1463 o oriau gwirfoddoli wedi'u cwblhau gan 30 o wardeniaid gwirfoddol ar Yr Wyddfa. Yn ne Eryri, cyfrannodd 11 warden gwirfoddol 446 awr ar Gader Idris.

Gwelodd Cynllun Caru Eryri 1641 o oriau gwirfoddoli dros dymor 2023 gan 153 o wirfoddolwyr. Cynhaliodd gwirfoddolwyr 28 cilomedr o lwybrau troed a chasglwyd 479 bag o sbwriel yn pwyso cyfanswm o 1,180 kg, ac ymgysylltwyd yn uniongyrchol ag ymwelwyr ar rai o lwybrau prysuraf Yr Wyddfa. Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi partneru unwaith eto â 'Pobl i Bobl' sy'n cynnwys ffoaduriaid o Syria, Afghanistan a'r Wcráin yng ngweithgareddau Caru Eryri, gan feithrin a cynwysoldeb a chyfnewid diwylliannol.

Yn 2023, ffynnodd ein rhaglen Ceidwaid Ifanc, gan recriwtio 24 o gyfranogwyr brwdfrydig newydd a ddechreuodd ar daith antur awyr agored a chadwraeth.
Yn ogystal, rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu'n frwd ag amrywiol grwpiau ieuenctid ar dasgau cadwraeth e.e. Mae'r Cyngor Astudiaethau Maes (FSC), Rhyd y Creuau yn dod â grwpiau Dug Caeredin i gynorthwyo gydag adfer Parc Mwynglawdd yng Nghoedwig Gwydir ac mae Coleg Myddleton, Dinbych hefyd wedi cynorthwyo i gael gwared ar goed conwydd er mwyn gwarchod rhywogaethau prin o gennau ar y safle hwn.

Gan weithio gyda Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd datblygwyd partneriaeth lle parwyd ysgolion lleol gyda gwaith cadwraeth y gallant ei gwblhau a chael perchnogaeth dros brosiect penodol. Un enghraifft o hyn yw disgyblion Ysgol Hafod Lon yn cynnal yr ardd synhwyraidd ym Mhlas Tan y Bwlch. Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr ddatblygu sgiliau ymarferol a chysylltu â byd natur yn eu hamgylchedd lleol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi croesawu llawer o grwpiau o fyfyrwyr prifysgol o Fangor, Aberystwyth, a rhaglenni rhyngwladol gan gynnwys Ysgoloriaeth Chevening a Phrifysgol Efrog Newydd i Eryri yn 2023. Mae ymgysylltu â'r grwpiau amrywiol hyn o fyfyrwyr yn hyrwyddo gweithredu ar y cyd ac yn meithrin y genhedlaeth nesaf o hyrwyddwyr amgylcheddol ar raddfa fyd-eang.<br><br>Canlyniadau ystadegau gwirfoddoli 2023: (Darparwyd cyfleoedd i wirfoddoli)<br>Pobl ifanc (14-24): 179<br>25 - 50:90<br>50+: 154<br><br>Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2023. | | | |
| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal llwybrau pellter hir sydd wedi'u ddiffinio'n glir, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnydd (yn arbennig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a hyrwyddir a llwybrau cyswllt rhwng trefi a phentrefi. | Mae rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a chadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |
| <u>**Adroddiad Diweddaru 2023/24**</u>**:**<br>Mae gwaith pellach wedi cael ei wneud ar y wefan eleni.  Mae ffilter wedi'i roi ar waith ar y safle Teithiau Cerdded & Llwybrffyrdd / Walks and Routes a fydd yn galluogi ein cynulleidfa i deilwra eu canlyniadau yn seiliedig ar Leoliad, Anhawster, Hyd, Amgylchiadau, Nodweddion Arbennig a Mynediad Tramper.<br><br>Uwch lwythwyd y llwybrau a hyrwyddir i'r wefan (Pontydd Arthog a Betws y Coed) Arweinlyfrau ymweld wedi'u huwch lwytho megis "Dewis y llwybr cywir ar Yr Wyddfa" a "5. Cymru wedi'i thrwytho mewn Mytholeg".<br><br>Mae Ymgyrch y gaeaf ar y gweill ac yn canolbwyntio ar lwybrau hygyrch a thymhorol ar ardaloedd y tu allan i ranbarth Yr Wyddfa. | | | |

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gyda APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau'r ucheldir. | Bydd rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a'u llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:**
Mae'r gwasanaeth Wardeniaid yn cynorthwyo gyda'r arolygon GIS ar lwybrau Hawliau Tramwy. Mae Cymdeithas Eryri yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod i ddarparu rhaglenni cynnal a chadw blynyddol ar Yr Wyddfa, Lôn Gwyrfai a Llwybr Mawddach.

Mae gwaith mynediad ar raddfa fach yn cael ei nodi a'i reoli gan y Wardeniaid Ardal.  Mae gwaith bach i ganolig yn cael ei arwain gan Wardeniaid Ardal gyda chefnogaeth Uwch Wardeniaid. Mae gwaith yn cael ei drafod a'i gadarnhau yn eu cynllun gwaith a/neu gynlluniau lleoedd ardal.  Mae gwaith mynediad mwy yn cael ei asesu a'i drafod mewn 'Cyfarfodydd Blaenoriaethu Prosiectau Mynediad' sy'n cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth Wardeiniaid, Uwch Wardeniaid, Rheolwr Lles a Mynediad a Swyddog Prosiect Mynediad. Mae Uwch Warden – Mynediad, wedi ei benodi a fydd nawr yn cydlynu prosiectau canolig i fawr.

Yn ogystal, mae cyllid LlC Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (SLSP) wedi cefnogi cynnwys mwy o waith llwybrau troed yng nghynlluniau ardal Wardeniaid.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio o gymdeithas, gan nodi'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn gyntaf. | Unwaith y nodir y rhwystrau, gellir datblygu Cynllun i oroesi'r rhwystrau a chynyddu'r lefelau cyfranogi. | Pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |
| **<u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:**<br>Yn ogystal â'r diweddariadau blaenorol a ddarparwyd o dan ffrydiau gwaith eraill yn yr adroddiad hwn, mae'r gwasanaeth llogi tramper hefyd yn parhau i ffynnu.<br><br>Profodd y gwasanaeth Llogi Tramper gynnydd o 20% o gymharu â'r llynedd, diolch i broses archebu symlach a'i gwnaeth yn fwy cyfleus i gwsmeriaid. Ymhlith y llwybrau Mynediad i Bawb a ffefrir roedd Lôn Gwyrfai a Llwybr Mawddach.<br><br>Yn ogystal, gwelodd un o'r tramperi yng Nghoedwig Beddgelert ddefnydd rheolaidd gan ymwelwyr a oedd yn aros ar safle Forest Holidays. Mae cytundeb yr Awdurdod gyda Forest Holidays yn parhau i ffynnu, ac ynghyd â chymorth y gwasanaeth Wardeinio, sy'n rhoi cymorth parhaus trwy ddosbarthu'r tramper i'r lleoliadau y gofynnir amdanynt gan gwsmeriaid.<br><br>Mae gwaith mynediad y Parc Cenedlaethol yn parhau gyda chynnal a chadw, gwelliannau a datblygu teithiau a hyrwyddir.<br><br>Yn ogystal, mae gwaith partneriaeth a arweinir yng Nghymru gan yr Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu, yn mynd rhagddo i gyd-greu gweledigaeth a nodau a rennir ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws Parciau Cenedlaethol y DU. Mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yr Awdurdod hefyd yn aelod o Grŵp CAC Parciau Cenedlaethol y DU. | | | |
| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gweithio hefo cymunedau i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. | Mae cymunedau ar ffin y Parc Cenedlaethol yn enwedig y rhai sy'n anodd eu cyrraedd, yn cael eu nodi a'u cynnwys er mwyn cyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

<table>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:<br>Cynllun Llysgenhadon yn parhau i dyfu a datblygu – cyrhaeddodd 1,000 o Lysgenhadon ym mis Tachwedd 2023.<br><br>Mae Modiwl Gloywi ar gyfer Archrediad 2024 wedi'i gyhoeddi ac wedi bod yn boblogaidd iawn. Modiwlau newydd ar Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau a Phrosiect Coedwig Law Geltaidd LIFE i’w lansio yn 2024.</td></tr>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Parhau i hyrwyddo a chynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol.</td><td>Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd bod pob gwasanaeth ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a’r holl staff.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:<br>Mae 95.3% o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn newis iaith y cyhoedd.<br><br>Mae cael canran mor uchel o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Wedi dweud hynny, y risg fwyaf i'r Awdurdod o hyd yw'r gallu i recriwtio staff â chymwysterau addas sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg i'r lefel ofynnol ar gyfer swyddi gwag.<br><br>Mae'r Awdurdod yn parhau i sicrhau bod pob cyfarfod rhithiol, pwyllgor, digwyddiad a gweminar yn gallu cael cyfleusterau cyfieithu llawn yn yr un modd â chyfarfodydd personol blaenorol.<br><br>Mae’r Ysgwrn yn parhau i gynnig cyfleoedd i gymdeithasu drwy’r Gymraeg, drwy wirfoddoli, mynychu digwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau.<br><br>Mae'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o brosiectau a rhaglenni ymgysylltu Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a chynllun Harlech ac Ardudwy.<br><br>Mae gwirfoddolwyr Yr Wyddfa yn cael eu paru yn ôl gallu ieithyddol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith. Mae'r Ysgwrn yn ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau safle gan gynnwys gwirfoddoli.<br><br>Mae'r holl weithgareddau hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yng ngwaith bob dydd yr Awdurdod. Rydym bob amser wedi gweithio ar y sail bod gwasanaethau Cymraeg bob amser ar gael heb orfod gofyn amdanynt.</td></tr>
</table>

**Amcan:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a hygyrchedd at gyfiawnder**.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb, yn enwedig yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb gyda'n partneriaid yng Ngogledd Cymru | Mi fydd un neges gyson, wedi ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, ar draws gogledd Cymru yn cael mwy o effaith o lawer. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Cynhaliwyd yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb rhwng yr 14eg a 21ain o Hydref 2023.

Cynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gydgysylltiedig gan holl bartneriaid sector cyhoeddus gogledd Cymru (sy'n cynnwys yr Awdurdod) yn ystod y cyfnod hwn, a ddefnyddiwyd delweddau a negeseuon cyson i atgyfnerthu negeseuon allweddol o ran nodi ac adrodd am droseddau casineb.

Yn ogystal, cynhaliodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN) ymgyrch hyrwyddo addysgol a chodi ymwybyddiaeth trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, Diwrnod Gwrth-gaethwasiaeth, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, a thrwy gydol Mis Hanes Pobl Dduon.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid o Ogledd Cymru ar amryw o ymgyrchoedd i hyrwyddo diogelwch ar-lein. | Mae dioddefwyr sgamiau ar-lein a bwlio yn aml iawn yn bobol fregus sy'n agored i niwed. Bydd codi ymwybyddiaeth trwy gyfres o negeseuon cyson yn cael mwy o effaith. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**
Ni chrëwyd unrhyw ymgyrchoedd uniongyrchol gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC) yn ystod y flwyddyn, gan fod yn rhaid cyfeirio adnoddau cyfyngedig y Rhwydwaith at waith blaenoriaeth arall.

Fodd bynnag, y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yw gweinyddydd cyfrif cyfryngau cymdeithasol y Rhwydwaith, ac mae wedi gweithio'n agos gydag Uned Seiberdroseddu Heddlu Gogledd Cymru i ledaenu ymwybyddiaeth barhaus o seiberdroseddu a negeseuon diogelwch ar-lein.

**Amcan**: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i fynd i'r afael â hwy o dan y ddyletswydd.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda sefydliadau eraill o'r sector gyhoeddus er mwyn rhannu ymarfer da. | Bydd hyn yn galluogi rhannu syniadau ac ymarfer da er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu'r ddyletswydd yn gywir. | Pawb | Tîm Rheoli & Phenaethiaid Gwasanaeth |
| **Adroddiad Diweddaru 2023/24:**<br>Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, lle rhennir arfer gorau a lle mae cefnogaeth a chyngor bob amser ar gael gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Wrth i amser ac adnoddau ganiatáu, gwneir gwaith a phrosiectau ar y cyd hefyd fel y gall pob sefydliad yn y sector cyhoeddus wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau cyfyngedig.<br><br>Eleni arweiniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar brosiect RhGGGC i ymgysylltu ar y thema Grymuso Cymunedau Amrywiol i Gyflogaeth, a gynhaliwyd rhwng Mehefin ac Awst 2023. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar ymgysylltu â thrigolion, defnyddwyr gwasanaeth a phartïon â diddordeb ar draws Gogledd Cymru (un ai unigolion sy'n gwynebu rhwystrau i gyflogaeth neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth) fel rhan o sgwrs i wneud yn siŵr bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn croesawu ac yn cynnwys pawb yn eu prosesau recriwtio a chadw.<br><br>Cynhaliwyd dau weithdy Zoom ar y cyd â holiadur yn holi'r cyhoedd am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud cais am waith gyda sefydliadau sector cyhoeddus. Yn dilyn y gweithdai, cyhoeddwyd adroddiad ar y canfyddiadau a'r argymhellion ar y camau nesaf, a fydd yn cael eu hystyried gan bartneriaid RhGGGC dros y flwyddyn i ddod. | | | |

**Amcan:** Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod y gwasanaethau a brynir i mewn yn gallu cwrdd ag ymrwymiad a disgwyliadau'r Awdurdod ar gydraddoldeb. | Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros gyrraedd y ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo'r gwaith neu'r gwasanaeth yn cael eu rhoi allan i gyflenwr allanol. Mae'n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i'r broses. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**Adroddiad Diweddaru 2023/24:**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio GwerthwchiGymru i hysbysebu'r mwyafrif o wasanaethau a gafaelir, gan mai hwn yw'r man galw cyntaf i gwmnïau sydd am gynnig am gytundebau sector cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod y contractau a gynigir gan yr Awdurdod yn cyrraedd ei gynulleidfa ehangaf bosibl.

Nid yw'r Awdurdod yn caffael llawer iawn o wasanaethau, gan fod mwyafrif y contractau o'r fath ar gyfer nwyddau. O'r contractau gwasanaeth hynny, ni fydd pob un yn berthnasol o ran ymrwymiadau cydraddoldeb a mesurau a ddisgwylir gan y cwmnïau hynny.

Mae'r Awdurdod wedi derbyn argymhellion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau'r Awdurdod mewn perthynas â chontractau yn ddigon tryloyw, ac yn unol â hynny mae fersiwn diweddar o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau wedi'i gynhyrchu.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu gofynion newydd Deddf Caffael 2023 o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y flwyddyn i ddod, i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn eu lle ac yn weithredol erbyn i'r Ddeddf ddod i rym yn 2025.

<table>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Darparu cefnogaeth (a lle’n briodol) hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn deall eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion a ddiogelir.</td><td>Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:<br>Mae staff perthnasol yn ymwybodol y gall y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar ystyriaethau cydraddoldeb, y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu prosiectau a ffrydiau gwaith newydd.<br><br>Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol hefyd ar gael i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer unrhyw gontractau cyflogaeth newydd a grëir yn yr Awdurdod.</td></tr>
<tr><th>Prosiect / Menter / Gweithred</th><th>Sut mae hyn yn cyfrannu?</th><th>Nodweddion a Ddiogelir</th><th>Swyddog Arweiniol</th></tr>
<tr><td>Darparu cefnogaeth a (lle bo hynny'n berthnasol) hyfforddiant i staff ar sicrhau bod eu Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb yn gadarn.</td><td>Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau.</td><td>Pawb</td><td>Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adroddiad Diweddaru 2023/24</u>:<br>Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fel arfer yn gweithio gydag aelodau staff unigol perthnasol ar ddatblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun, y Polisi, neu’r Strategaeth sy'n cael ei adolygu neu ei ddatblygu ac ar unrhyw Benderfyniad Strategol sy'n cael ei wneud. Mae hyn yn sicrhau cyn belled ag y bo modd, bod yr asesiadau mor gadarn ag y gallant fod, a lle bo'n berthnasol hefyd yn cynnwys asesiad cadarn o effaith economaidd-gymdeithasol ar Benderfyniadau Strategol.<br><br>Yn ystod y flwyddyn adolygwyd y ffordd y cynhaliodd yr Awdurdod Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, ac o ganlyniad fe'i tynnwyd allan o'r asesiad effaith integredig ac mae bellach wedi'i gwblhau fel asesiad annibynnol. Gwnaethpwyd hyn ar ôl derbyn cyngor ac arweiniad pellach ar arfer gorau gan Gomisiynydd y Gymraeg.</td></tr>
</table>

## 5. Hyfforddiant

Mae modiwlau dwyieithog ar-lein ar gael ar ELMS ar y pynciau canlynol i staff:

- Urddas a Pharch yn y Gwaith
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gwaith
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Cynhwysiant Niwroamrywiaeth
- Cyflwyniad i Iechyd a Diogelwch
- Cyflwyniad i Gymorth Cyntaf
- Bwlio ac Aflonyddu
- Ymwybyddiaeth o Straen

Yn ystod y flwyddyn, mynychodd aelod o staff sesiwn ar-lein ar ‘Ddeall Troseddau Casineb a Bregusrwydd yng Ngogledd Cymru’, a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Yna dosbarthwyd gwybodaeth o'r sesiwn hon i staff allweddol perthnasol sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn yr Awdurdod.

Fel rhan o Fis Hanes LHDTC+ trefnwyd gweminar ar-lein i staff ar ymwybyddiaeth Traws gyda Mermaids ar y 23ain o Chwefror 2024, sydd wedi bod yn cefnogi plant a phobl ifanc traws, anneuaidd ac amrywiol o ran rhywedd, a’u teuluoedd ers 1995.

Roedd y sesiwn yn ymdrin â chwalu mythau cyffredin ynghylch hunaniaethau Traws, iaith a therminoleg, defnydd o ragenwau a sut i ddod o hyd i ragenwau, rhai o’r fframwaith cyfreithiol presennol ynghylch mynediad at wasanaethau a gofodau, a gwybodaeth sy’n benodol i Gymru am arfer gorau.

Anogwyd staff hefyd i fynychu digwyddiad ar-lein arall ar yr 20fed o Fawrth 2024 a drefnwyd gan Balchder mewn Natur. Mae’r digwyddiad rhad ac am ddim hwn wedi bod yn rhedeg ers 2021 ac mae’n dod ag aelodau o’r gymuned LHDTC+ a’i chynghreiriaid at ei gilydd, gan ddarparu gofod diogel i rannu gwerthfawrogiad ar y cyd am fyd natur a sut y gall y rhai o’r gymuned LHDTC+ gyfrannu at adferiad byd natur.

Trefnwyd ac ariannwyd hyfforddiant hefyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Aelodau’r Awdurdod eleni. Roedd un o’r sesiynau hyfforddi hyn yn gyflwyniad i amrywiaeth a chynhwysiant o’r enw ‘Tirweddau i Bawb’. I’r Aelodau hynny na allai fod yn bresennol, trefnwyd bod recordiad o’r sesiwn ar gael yn barhaol fel adnodd ynghyd â’r dogfennau trosolwg cwrs ar wefan Tirweddau Cymru, y gellir eu cyrchu gyda chyfrinair unrhyw bryd yn y dyfodol.

## 6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau ar waith i sgrinio ac asesu effaith unrhyw strategaethau, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion newydd neu ddiwygiedig neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 11 asesiad sgrinio, a dim ond 1 oedd angen asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Islaw mae crynodeb byr o'r asesiad effaith cydraddoldeb llawn a gynhaliwyd.

<u>Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4</u>

Mae cymunedau ledled Eryri yn wynebu pwysau sylweddol yn sgil y defnydd a wneir o dai annedd fel cartrefi gwyliau. Yn sgil y pwysau cynyddol hwn, sydd wedi ei amlygu hyd yn oed fwyfwy dros y blynyddoedd diwethaf, mae yna bwysau cynyddol wedi bod i roi mecanwaith ar waith er mwyn cael gwell rheolaeth o'r stoc dai presennol. Y gobaith yw y bydd ystod o fecanweithiau rheoli effeithiol yn fodd o liniaru sgil effeithiau cartrefi gwyliau ar gymunedau, a chyfrannu tuag at ddiwallu anghenion tai cymunedau Eryri.

Mae cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn un o'r dulliau sydd ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol er mwyn eu galluogi i ymateb i anghenion penodol eu hardaloedd. Maent yn rhoi'r gallu i Awdurdodau Cynllunio Lleol, pan ystyrir yn briodol, gyfyngu ar hawliau 'datblygu a ganiateir' a fyddai, fel arall, yn gymwys yn rhinwedd y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Pwysleisir nad yw cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal datblygu ond yn hytrach, mae'n golygu bod rhaid cael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y bwriad. Drwy orfodi'r angen i dderbyn hawl cynllunio mae'n golygu fod angen ystyried effeithiau'r datblygiad a hynny'n unol a'r cyd-destun polisi cynllunio lleol a chenedlaethol.

Ochr yn ochr â'r papur cynhwysfawr ar asesu cyflwyniad y Cyfarwyddyd Erthygl 4, roedd yr asesiad effaith a gynhyrchwyd yn amlygu manteision cadarnhaol ac effeithiau negyddol posibl ar wahanol grwpiau oedran o fewn cymunedau. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddadansoddi'r ymatebion a chyhoeddi Adroddiad Ymgynghori. Mae'r asesiad effaith yn parhau i fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru gyda data pellach wrth iddo ddod ar gael yn ogystal ag unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen.

Cynhaliwyd asesiad effaith iaith Gymraeg ar wahân ar y polisi hefyd, sydd hefyd yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru gyda gwybodaeth o'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 7. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodweddion a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
    - Swydd
    - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
    - Tâl
    - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
    - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a fethodd
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn o / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

## Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2024 = 149

## Proffil oedran

| | |
|---|---|
| 24 a iau | 11 |
| 25 – 34 | 30 |
| 35 – 44 | 30 |
| 45 – 54 | 37 |
| 55 – 64 | 33 |
| 65 a throsodd | 8 |

## Dosbarthiad Benywod / Gwrywod

| | |
|---|---|
| Benywod | 80 |
| Gwrywod | 69 |

Mae 4% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl a / neu gyda nam.

Roedd 8 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Tsieineaidd).

O achos y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract ar 31.03.2024 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd wahanol o fewn y graddfeydd):

| | | Patrwm Gwaith | | | | | | Math o Gontract | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amser llawn | | Rhan amser | | Hyblyg | | Parhaol | | Dros Dro | | Tymor Penodol | |
| **Graddfa** | **Tâl/ Awr** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** |
| MW | 10.42 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 1 | 11.61 | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| 2 | 11.80 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| 3 | 12.10 | 0 | 3 | 9 | 3 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 8 | 5 |
| 4 | 12.50 | 2 | 3 | 15 | 2 | 0 | 0 | 10 | 4 | 1 | 1 | 6 | 0 |
| 5 | 13.37 | 0 | 7 | 4 | 3 | 0 | 0 | 4 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 6 | 14.55 | 3 | 4 | 5 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| 7 | 16.46 | 10 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | 6 | 10 | 0 | 0 | 6 | 3 |
| 8 | 18.31 | 9 | 12 | 0 | 1 | 0 | 0 | 8 | 12 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 9 | 19.84 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 10 | 20.87 | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 4 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 11 | 22.27 | 3 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 12 | 23.06 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 13 | 24.11 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 14 | 25.16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 | 25.95 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chief Officer - Director | 36.96 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chief Officer - Chief Executive | 49.24 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

O'r ymgeiswyr sydd wedi llenwi ffurflenni monitro:

## Tarddiad Ethnig

255 Gwyn
2 Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd
1 Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd
2 Cymysg - Gwyn ac Asiaidd
17 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
9 Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
5 Gwell gennyf beidio â dweud

## Cenedl

| | |
|---|---|
| 151 | Gwryw |
| 140 | Benyw |

## Anabledd

3 ymgeisydd gyda nam yr hoffent roi gwybod amdano

## Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

| | Ceisiadau | Penodiadau |
|---|---|---|
| Gwryw | 5 | 4 |
| Benyw | 7 | 5 |
| Cyfanswm | 12 | 9 |

## Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

| | Ceisiadau | Wedi Llwyddo | Gwrthodwyd |
|---|---|---|---|
| Gwryw | 27 | 27 | 0 |
| Benyw | 20 | 20 | 0 |
| Cyfanswm | 47 | 47 | 0 |

## Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi

| | |
|---|---|
| Benyw | 0 |
| Gwryw | 1 |
| Cyfanswm | 1 |

## Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Roedd 3 gweithiwr yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod y cyfnod hwn.

## Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

| | |
|---|---|
| Benyw | 22 |
| Gwryw | 8 |
| Cyfanswm | 30 |

**EITEM RHIF 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 27 Tachwedd 2024 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso |
| **ADRODDIAD GAN** | Awel Gruffydd |
| **PWRPAS** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynghylch y cynnydd a wnaed yn y Canolfannau Croeso |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gan yr Awdurdod dair Canolfan Groeso, yn Aberdyfi, Beddgelert a Betws y Coed. Mae canolfannau Aberdyfi a Beddgelert wedi bod yn dymhorol, tra bod canolfan Betws y Coed ar agor drwy gydol y flwyddyn.

1.2 Ers 2018 agorwyd swyddfa Beddgelert am wythnos dros hanner tymor Chwefror ac yna ar benwythnosau dim ond tan iddi agor am y tymor o'r penwythnos diwethaf ym mis Mawrth. Yn dilyn llwyddiant y ganolfan dros y blynyddoedd diwethaf penderfynwyd treialu agoriad y ganolfan ar benwythnosau (a thros wyliau'r Nadolig) ar gyfer 2023 – 2024. Yn ystod y treial, ymatebodd y Ganolfan i / ymdriniodd â 1435 o ymholiadau ymwelwyr ychwanegol am gost ychwanegol i'r ganolfan o £1184.05. Er gwaethaf y gost ychwanegol mae'r treial wedi cael ei ymestyn dros y gaeaf 2024 – 2025. Mae hyn oherwydd dau ffactor;

- Roedd yr amodau tywydd garw rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2024 yn golygu na chyflawnwyd potensial llawn yr amseroedd agor ychwanegol.
- Cafodd y treial gefnogaeth enfawr gan y gymuned leol a'r ymwelwyr blynyddol nad oedd wedi gweld y Ganolfan ar agor yn y gorffennol.

Teimlwyd na fyddai canlyniadau un cyfnod prawf yn rhoi darlun digonol i asesu dichonoldeb gwneud newid parhaol.

## 2. TROSOLWG O'R FLWYDDYN 2024-25 HYD YMA

2.1 Agorodd y tair canolfan yn brydlon a fe fuont ar agor am y tymor llawn.

2.2 Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld nifer o heriau gyda lefelau staffio. Mae recriwtio ar gyfer 2024 wedi bod yn llwyddiannus. Mae lefelau staffio llawn wedi bod ar waith ym mhob canolfan ar gyfer y tymor cyfan ac ni chollwyd diwrnodau oherwydd diffyg digon o staff i gyflenwi.

2.3 Mae gwerthiannau ar-lein yn cyfateb i 2023. Mae cynnwys archebu digwyddiadau a rhoddion yn golygu bod yr elw ar werthiannau yn parhau'n gyson.
Ionawr 2024 – Diwedd Hydref 2024 - £3368
Ionawr 2023 – Diwedd Hydref 2023 - £3149
Ionawr 2022 – Diwedd Hydref 2022 - £2049
Ionawr 2021 – Diwedd Hydref 2021 - £1584

## 3. CANOLFAN ABERDYFI

3.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1. Yn gynwysedig mae cymariaethau tymor byr â 23/24 a thueddiadau tymor hir o 2017.

3.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi methu recriwtio staff ar gyfer dechrau'r tymor, yn ogystal â methu â'u cadw am y tymor llawn. Eleni, am y tro cyntaf ers cyn y pandemig cawsom gyflenwad llawn o staff ar gyfer y tymor llawn. Mae hyn yn golygu bod Nifer yr Ymwelwyr wedi aros yn sefydlog ar y cyfan er gwaethaf y gostyngiad sylweddol dros wyliau'r haf ac i mewn i fis Medi

3.3 Cynyddodd trosiant Aberdyfi 25% dros y tymor o'i gymharu â 2023/24.

3.4 O edrych ar y gymhariaeth hirdymor gallwn weld bod y gwariant cyfartalog fesul trafodiad a'r elw fesul Pennaeth yn parhau i fod yn sefydlog, gan gynnal yr enillion a wnaed y llynedd.

## 4. CANOLFAN BEDDGELERT

4.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.

4.2 Gwelodd Beddgelert gwymp o 7% yn nifer yr ymwelwyr. Gwaethygodd tywydd gwael yr haf yr effaith ar y Pasg cynnar.

4.3 Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr roedd gwerthiant yn parhau'n uchel. Roedd trosiant i fyny 7.5% ar ganlyniadau rhagorol y llynedd.

4.4 O edrych ar y gymhariaeth tueddiadau tymor hir, mae gwariant cyfartalog fesul trafodiad yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r Canolfannau eraill.

## 5. CANOLFAN BETWS Y COED

5.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.

5.2 Mae nifer yr ymwelwyr ym Metws y Coed wedi aros yn sefydlog ac yn debyg i 2023/24 (cynnydd o 0.6%). Er bod y gwyliau Pasg cynnar wedi effeithio arnynt, ni ddioddefodd Betws yr un cwymp haf â'r ddwy ganolfan arall.

5.3 Cynyddodd y trosiant 4%.

## 6. I GLOI

6.1 Mae tywydd Pasg cynnar a thywydd gwael dros yr haf yn golygu bod gostyngiad bach wedi cael ei brofi yn nifer yr ymwelwyr (1.7% yn gyffredinol – neu ymholiadau

2084). Byddai hyn wedi bod yn fwy arwyddocaol pe bai'r un amgylchiadau staffio wedi parhau yn Aberdyfi.

6.3 Fel y soniwyd yn 1.2 bydd cyfnod agoriad arbrofol dros y gaeaf yng Nghanolfan Beddgelert yn cael ei ymestyn. Bydd y ganolfan ar agor ar benwythnosau drwy'r gaeaf yn ogystal ag am gyfnod dros wyliau'r Nadolig.

6.4 Er bod trosiant wedi cynyddu eto, mae costau rhedeg y canolfannau hefyd wedi cynyddu. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y canolfannau yn dod â'r flwyddyn ariannol i ben o fewn eu cyllideb weithredu benodol.
Nodir y disgwyliad ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn –

- Bydd Aberdyfi yn costio tua £14k i'r Awdurdod
- Bydd Beddgelert yn costio tua £24k i'r Awdurdod
- Bydd Betws y Coed yn costio tua £38k i'r Awdurdod

Costau sy'n weddill ar gyfer cefnogi gwasanaethau.

## 7. DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

7.1. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn awyddus i benodi arbenigwyr allanol i edrych yn fanwl ar y potensial masnachol ar safle Betws y Coed. Yr Awdurdod sy'n berchen ar Y Stablau ac mae swyddogion yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd masnachol drwy ddatblygu'r safle yn ei gyfanrwydd.

7.2. Bydd cynyddu incwm a lleihau costau rhedeg canolfannau yn flaenoriaeth yn 2025 a bydd pob cyfle masnachol yn cael ei archwilio.

## ARGYMHELLIAD

1. **Bod yr Aelodau'n trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau a ddylid eu cymryd wrth i ni edrych ymlaen at 2024-2025.**

***CANOLFAN* / CENTRE: ABERDYFI**

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU* / VISITORS AND ENQUIRIES**

| *MIS* MONTH | 2024/25 | | | | *CYFANSWM* TOTAL | | 2023/24 | | | | *CYFANSWM* TOTAL | % + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | e.› | | | | | | e.› | | |
| *EBR / APR* | 2,204 | 1 | 6 | - | 2,211 | *EBR / APR* | 1,582 | - | 14 | 7 | 1,603 | 37.93 |
| *MAI / MAY* | 5,429 | - | 21 | 3 | 5,453 | *MAI / MAY* | 4,186 | - | 18 | 8 | 4,212 | 29.46 |
| *MEH / JUN* | 6,384 | - | 18 | 2 | 6,404 | *MEH / JUN* | 5,316 | 1 | 54 | 11 | 5,382 | 18.99 |
| *GOR / JUL* | 5,185 | - | 21 | 1 | 5,207 | *GOR / JUL* | 4,021 | 1 | 38 | 7 | 4,067 | 28.03 |
| *AWS / AUG* | 5,764 | - | 30 | 1 | 5,795 | *AWS / AUG* | 8,175 | - | 36 | 4 | 8,215 | -29.46 |
| *MED / SEP* | 3,565 | - | 10 | 1 | 3,576 | *MED / SEP* | 5,900 | - | 26 | 6 | 5,932 | -39.72 |
| *HYD / OCT* | 2,370 | - | 8 | - | 2,378 | *HYD / OCT* | 1,146 | - | 12 | 5 | 1,163 | 104.47 |
| *TACH / NOV* | 294 | - | - | - | 294 | *TACH / NOV* | 69 | - | 1 | - | 70 | 320.00 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION / JAN* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW / MAR* | 582 | - | 3 | - | 585 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | 31,195 | 1 | 114 | 8 | 31,318 | | 30,977 | 2 | 202 | 48 | 31,229 | 0.28 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | 30,901 | 1 | 114 | 8 | 31,024 | | 30,326 | 2 | 198 | 48 | 30,574 | 1.47 |

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** | ***GWERTHIANNAU / SALES*** | | |
|---|---|---|---|
| *MIS/MONTH* | 2024/25 | 2023/24 | % + / - |
| *EBR / APR* | £ 3,496.15 | £ 1,693.36 | 106.46 |
| *MAI / MAY* | £ 5,189.58 | £ 3,745.08 | 38.57 |
| *MEH / JUN* | £ 5,387.27 | £ 5,786.88 | -6.91 |
| *GOR / JUL* | £ 5,763.24 | £ 5,435.85 | 6.02 |
| *AWS / AUG* | £ 7,725.49 | £ 5,492.63 | 40.65 |
| *MED / SEP* | £ 5,722.57 | £ 4,830.39 | 18.47 |
| *HYD / OCT* | £ 3,451.72 | £ 2,186.97 | 57.83 |
| *TACH / NOV* | £ 480.20 | £ 172.34 | 178.64 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 992.82 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 37,216.22 | £ 30,336.32 | 22.68 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 36,736.02 | £ 29,171.16 | 25.93 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| *MIS / MONTH* | 2024/25 | 2023/24 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 1,391.47 | £ 688.86 | 102.00 |
| *MAI / MAY* | £ 2,073.60 | £ 1,510.12 | 37.31 |
| *MEH / JUN* | £ 2,156.32 | £ 2,318.77 | -7.01 |
| *GOR / JUL* | £ 2,351.67 | £ 2,191.27 | 7.32 |
| *AWS / AUG* | £ 3,118.68 | £ 2,219.75 | 40.50 |
| *MED / SEP* | £ 2,275.74 | £ 1,944.34 | 17.04 |
| *HYD / OCT* | £ 1,378.85 | £ 863.12 | 59.75 |
| *TACH / NOV* | £ 189.61 | £ 67.19 | 182.20 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 14,935.94 | £ 11,803.42 | 26.54 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 14,746.33 | £ 11,736.23 | 25.65 |

***CANOLFAN / CENTRE: BEDDGELERT***

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES***

| MIS | **2024/25** | | | | CYFANSWM | | **2023/24** | | | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MONTH | | | | e.› | TOTAL | | | | | e.› | TOTAL | % + / - |
| *EBR / APR* | 3,693 | 8 | 64 | 6 | 3,771 | *EBR / APR* | 4,912 | - | 112 | 8 | 5,032 | -25.06 |
| *MAI / MAY* | 5,539 | - | 94 | 13 | 5,646 | *MAI / MAY* | 4,977 | - | 114 | 5 | 5,096 | 10.79 |
| *MEH / JUN* | 5,572 | - | 75 | 10 | 5,657 | *MEH / JUN* | 5,132 | - | 118 | 7 | 5,257 | 7.61 |
| *GOR / JUL* | 7,096 | - | 96 | 7 | 7,199 | *GOR / JUL* | 7,272 | 1 | 121 | 7 | 7,401 | -2.73 |
| *AWS / AUG* | 7,994 | - | 141 | 11 | 8,146 | *AWS / AUG* | 8,985 | - | 117 | 7 | 9,109 | -10.57 |
| *MED / SEP* | 5,054 | - | 57 | 5 | 5,116 | *MED / SEP* | 5,611 | - | 73 | 2 | 5,686 | -10.02 |
| *HYD / OCT* | 3,215 | - | 53 | 3 | 3,271 | *HYD / OCT* | 4,023 | - | 63 | 3 | 4,089 | -20.00 |
| *TACH / NOV* | 275 | - | 4 | 1 | 280 | *TACH / NOV* | 729 | - | 6 | 3 | 738 | -62.06 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG / DEC* | 541 | - | 12 | 3 | 556 | -100.00 |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION / JAN* | 435 | - | 13 | - | 448 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE / FEB* | 751 | - | 13 | 6 | 770 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW / MAR* | 1,910 | 3 | 31 | 8 | 1,952 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | 38,438 | 8 | 584 | 56 | 39,086 | | 45,278 | 4 | 793 | 59 | 46,134 | -15.28 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | 38,163 | 8 | 580 | 55 | 38,806 | | 40,912 | 1 | 718 | 39 | 41,670 | -6.87 |

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** | ***GWERTHIANNAU / SALES*** | | |
|---|---|---|---|
| *MIS/MONTH* | 2024/25 | 2023/24 | % + / - |
| *EBR / APR* | £ 11,324.95 | £ 11,572.94 | -2.14 |
| *MAI / MAY* | £ 14,784.32 | £ 11,519.73 | 28.34 |
| *MEH / JUN* | £ 15,396.22 | £ 12,995.47 | 18.47 |
| *GOR / JUL* | £ 18,184.75 | £ 17,194.26 | 5.76 |
| *AWS / AUG* | £ 22,387.87 | £ 21,811.35 | 2.64 |
| *MED / SEP* | £ 17,170.05 | £ 15,765.53 | 8.91 |
| *HYD / OCT* | £ 12,448.83 | £ 12,984.32 | -4.12 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 2,409.15 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 1,891.57 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 1,360.29 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 2,545.97 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 5,229.46 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 111,696.99 | £ 117,280.04 | -4.76 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 111,696.99 | £ 103,843.60 | 7.56 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| *MIS / MONTH* | 2024/25 | 2023/24 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 4,505.74 | £ 4,643.14 | -2.96 |
| *MAI / MAY* | £ 5,885.26 | £ 4,578.07 | 28.55 |
| *MEH / JUN* | £ 6,123.66 | £ 5,192.13 | 17.94 |
| *GOR / JUL* | £ 7,263.02 | £ 6,783.57 | 7.07 |
| *AWS / AUG* | £ 8,982.00 | £ 8,668.57 | 3.62 |
| *MED / SEP* | £ 6,868.35 | £ 6,267.04 | 9.59 |
| *HYD / OCT* | £ 4,979.60 | £ 4,994.15 | -0.29 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 943.45 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 740.09 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 521.57 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 1,007.53 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 2,067.98 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 44,607.63 | £ 46,407.29 | -3.88 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 44,607.63 | £ 41,126.67 | 8.46 |

***CANOLFAN / CENTRE: BETWS Y COED***

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES***

| MIS / MONTH | 2024/25 | | | | CYFANSWM / TOTAL | | 2023/24 | | | | CYFANSWM / TOTAL | % + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | e.› | | | | | | e.› | | |
| *EBR / APR* | 4,283 | - | 95 | 31 | 4,409 | *EBR / APR* | 5,833 | 2 | 90 | 35 | 5,960 | -26.02 |
| *MAI / MAY* | 5,411 | - | 104 | 22 | 5,537 | *MAI / MAY* | 6,120 | - | 102 | 29 | 6,251 | -11.42 |
| *MEH / JUN* | 7,081 | - | 93 | 26 | 7,200 | *MEH / JUN* | 6,672 | 2 | 72 | 22 | 6,768 | 6.38 |
| *GOR / JUL* | 8,094 | - | 92 | 27 | 8,213 | *GOR / JUL* | 7,844 | - | 117 | 30 | 7,991 | 2.78 |
| *AWS / AUG* | 9,595 | - | 102 | 17 | 9,714 | *AWS / AUG* | 9,139 | - | 118 | 25 | 9,282 | 4.65 |
| *MED / SEP* | 7,497 | - | 83 | 22 | 7,602 | *MED / SEP* | 7,066 | 1 | 63 | 24 | 7,154 | 6.26 |
| *HYD / OCT* | 6,257 | 1 | 100 | 23 | 6,381 | *HYD / OCT* | 5,246 | - | 56 | 18 | 5,320 | 19.94 |
| *TACH / NOV* | 597 | - | 1 | 1 | 599 | *TACH / NOV* | 2,142 | - | 55 | 12 | 2,209 | -72.88 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG / DEC* | 1,602 | - | 34 | 6 | 1,642 | -100.00 |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION / JAN* | 1,194 | 1 | 49 | 15 | 1,259 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE / FEB* | 2,061 | 1 | 73 | 27 | 2,162 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW / MAR* | 3,086 | - | 90 | 37 | 3,213 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | 48,815 | 1 | 670 | 169 | 49,655 | | 58,005 | 7 | 919 | 280 | 59,211 | -16.14 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | 48,218 | 1 | 669 | 168 | 49,056 | | 47,920 | 5 | 618 | 183 | 48,726 | 0.68 |

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** | ***GWERTHIANNAU / SALES*** | | |
|---|---|---|---|
| MIS/MONTH | 2024/25 | 2023/24 | % + / - |
| *EBR / APR* | £ 10,404.18 | £ 12,462.36 | -16.52 |
| *MAI / MAY* | £ 12,738.22 | £ 13,199.46 | -3.49 |
| *MEH / JUN* | £ 16,315.39 | £ 14,211.69 | 14.80 |
| *GOR / JUL* | £ 17,733.85 | £ 16,780.55 | 5.68 |
| *AWS / AUG* | £ 23,232.14 | £ 20,248.64 | 14.73 |
| *MED / SEP* | £ 18,120.56 | £ 17,433.59 | 3.94 |
| *HYD / OCT* | £ 13,443.04 | £ 13,026.61 | 3.20 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 6,566.58 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 5,045.22 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 2,460.34 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 4,877.18 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 7,245.27 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 111,987.38 | £ 133,557.49 | -16.15 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 111,987.38 | £ 107,362.90 | 4.31 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| *MIS / MONTH* | 2024/25 | 2023/24 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 4,154.40 | £ 5,046.50 | -17.68 |
| *MAI / MAY* | £ 5,048.41 | £ 5,358.94 | -5.79 |
| *MEH / JUN* | £ 6,525.46 | £ 5,763.65 | 13.22 |
| *GOR / JUL* | £ 7,087.09 | £ 6,790.25 | 4.37 |
| *AWS / AUG* | £ 9,292.63 | £ 8,216.84 | 13.09 |
| *MED / SEP* | £ 7,288.85 | £ 7,027.71 | 3.72 |
| *HYD / OCT* | £ 5,430.08 | £ 5,205.58 | 4.31 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 2,604.25 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 1,980.66 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 976.89 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 1,919.83 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 2,885.69 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 44,826.92 | £ 53,776.79 | -16.64 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 44,826.92 | £ 43,409.47 | 3.27 |

## WEDI SELIO AR FLWYDDYN GALENDER YN HYTRACH NA BLWYDDYN ARIANOL

| Elw ar Werthiannau | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm |
| 2015 | | £5,664.54 | £ 12,413.31 | £20,083.96 |
| 2016 | | £8,705.86 | £ 18,362.32 | £30,099.03 |
| 2017 | | £7,998.18 | £ 22,643.70 | £34,699.75 |
| 2018 | | £8,752.51 | £ 25,942.14 | £39,508.29 |
| 2019 | | £9,038.85 | £ 28,235.48 | £45,322.49 |
| 2020 | | £4,530.58 | £ 13,136.96 | £13,630.91 |
| 2021 | | £8,106.29 | £ 31,194.13 | £26,967.40 |
| 2022 | | £9,667.94 | £ 38,047.94 | £40,276.89 |
| 2023 | | £11,946.27 | £ 44,639.12 | £53,558.12 |
| 2024 | Ddim yn gyflawn | £15,331.29 | £ 48,204.71 | £50,609.33 |

| Elw Y Pen | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Avarage | Avarage | Avarage |
| 2015 | | £0.18 | £0.23 | £0.16 |
| 2016 | | £0.23 | £0.33 | £0.22 |
| 2017 | | £0.26 | £0.36 | £0.27 |
| 2018 | | £0.27 | £0.47 | £0.35 |
| 2019 | | £0.27 | £0.65 | £0.54 |
| 2020 | | £0.53 | £0.70 | £0.63 |
| 2021 | | £0.74 | £0.76 | £0.56 |
| 2022 | | £0.41 | £1.04 | £0.60 |
| 2023 | | £0.52 | £1.09 | £0.92 |
| 2024 | Ddim yn gyflawn | £0.54 | £1.18 | £0.90 |

| Ymholiadau Ymwelwyr | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm |
| 2015 | | 31768 | 52029 | 121307 |
| 2016 | | 40197 | 56307 | 134126 |
| 2017 | | 32824 | 56144 | 127258 |
| 2018 | | 34031 | 59634 | 123491 |
| 2019 | | 37493 | 47205 | 84678 |
| 2020 | | 8359 | 16606 | 29266 |
| 2021 | | 9692 | 33032 | 39517 |
| 2022 | | 29822 | 40759 | 74436 |
| 2023 | | 30876 | 44528 | 59348 |
| 2024 | Ddim yn gyflawn | 31903 | 41976 | 55690 |

| Avarage Spend Per Transaction | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Avarage | Avarage | Avarage |
| 2015 | | £8.10 | £5.72 | £5.75 |
| 2016 | | £7.59 | £7.34 | £7.12 |
| 2017 | | £7.39 | £8.53 | £8.12 |
| 2018 | | £7.74 | £8.83 | £9.07 |
| 2019 | | £9.18 | £10.11 | £9.60 |
| 2020 | | £10.29 | £12.72 | £12.67 |
| 2021 | | £10.24 | £11.24 | £10.31 |
| 2022 | | £10.02 | £12.16 | £10.78 |
| 2023 | | £11.44 | £12.91 | £11.26 |
| 2024 | Ddim yn gyflawn | £11.45 | £13.16 | £11.52 |

**EITEM RHIF 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 27 Tachwedd, 2024 |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2024-25** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Adroddiad cynnydd y Chwarter Cyntaf a'r Ail (Ebrill – Medi) 2024 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter cyntaf a'r ail o 2024 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25: Adroddiad Cynnydd ar y Chwarter Cyntaf a'r Ail yn 2024.

JO/PaA/RWC/Adroddiad
P/Covering Report

# AMCANION LLESIANT 2024-25 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Chwarter 1 a 2 : Ebrill – Medi 2024**

**Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)**

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.1** | (gwyrdd) | **Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Gynaliadau Gwynedd ac Eryri** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1-2** | **Ymgyrch yn cael ei weithredu ar yr economi ymweld ar gyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod. Sesiynau hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol wedi eu cynnal yn y Pencadlys i fusnesau a fentrau cymunedol Gwynedd & Eryri.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(oren) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.2 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn Pen y Pass trwy uwchraddio'r cyfleusterau a dehongli i ymwelwyr:**<br>➢ Cwblhau a gosod gwelliannau i gyfleusterau dehongli Pen y Pass<br>**Gwaith cynllunio a phrisio wedi dechrau.** | Mawrth 2025 | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas. Wardeinio a Mynediad (WaM)<br>Swyddog Cyfathrebu |
| AC 1.3 | Wedi ei Gwblhau<br>**Ch. 1-2** | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2023**<br>**Adroddiad wedi ei chynhyrchu a'i chyflwyno i Aelodau yn ystod Gweithgor mis Mehefin 2024. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan PC Eryri.** | Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Meh./Gorff. 2024 | Pen. Partneriaethau |
| AC 1.4 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol**<br>**Gwaith amrywiol yn parhau ar draws y Parc yng nghyd a phrosiectau mawr fel – Mynydd Moel (Cadair Idris) a Llwybr y Mwynwyr (Yr Wyddfa).** | Parhaus | Pen. Gwas. WaM |
| AC 1.5 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri**<br>**Draft wedi ei gynhyrchu. Rhagwelir cyflwyno'r drafft i Aelodau yn yr Hydref.** | Hydref 2024 | Pen. Gwas. WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.6** | | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri** | Hydref. 2024 | Pen. Gwas. WaM |
| | **Ch. 1- 2** | **Drafft cyntaf wedi ei greu.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.7** | | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn** | Parhaus | Pen. Gwas. WaM |
| | **Ch. 1 – 2** | **Y gwaith yma'n parhau. Mi fydd y system rheoli rhwydwaith newydd yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau mwy manwl.** | | |
| | Ch. 3 - 4 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.8** | | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol** | Parhaus | Pen. WaM |
| | **Ch. 1 - 4** | **Gwaith yma'n parhau ac yn cael eu cynllunio yng nghynlluniau ardal Wardeniaid** | | |
| **AC 1.9** | | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid** | Parhaus | Pen. WaM |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae pob warden efo cynllun ardal sy'n cael ei arolygu gyda'r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae'r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw'r gwaith prosiectau natur arian grant Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (SLSP) gyda Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. Mae'r gwaith hyn yn barhaus.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.10 | Wedi ei Gwblhau<br>Ch. 1 – 2 | **Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig**<br>➢ Mewn partneriaeth â Cadw Cymru'n Daclus, trefnu a chynnal COPA1, yr uwchgynhadledd Ieuenctid gyntaf sy'n cael ei gynnal fel rhan o brosiect ymateb i lygredd plastig untro<br>**COPA1 wedi cael ei drefnu ac yn llwyddiant mawr - pawb yn gytûn bod angen etifeddiaeth a dechrau cynllunio COPA2 at 2026.**<br>**Bydd y gwaith prosiect yn dod i ben diwedd mis Hydref 2024. Bydd y Swyddog yn cyflwyno i'r Aelodau yn ystod Gweithgor mis Hydref. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei chynhyrchu a chynllunio am etifeddiaeth y prosiect yn digwydd yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2024.** | Medi 2024 | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Prosiect Yr Wyddfa di-blastig |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| AC 2.1<br>Adroddiad Blynyddol | | **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd**<br>**Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLl presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLl i'r Aelodau ac yna i Lywodraeth Cymru bob Hydref, ac mae hyn wedi dod i'r casgliad y cydymffurfiwyd yn fras â'r polisiau hyn. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn yr adolygiad o'r CDLl yn 2025.** | Adroddiad blynyddol | *Pen. RhDaCh<br>Pen. Polisi Cynllunio |

* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC)

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.2** | | **Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Rhagfyr 2024) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel**<br>➢ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau newydd o Rhagfyr 2024+ ymlaen | Pen. Eiddo |
| | **Ch. 1- 2** | **Mae gwaith dadgarboneiddio pellach ar y gweill drwy arian grant Llywodraeth Cymru, Tirweddau Cynaladwy Llefydd Cynaladwy. Mae gwaith addasu a diweddaru y Cynllun Rheoli Asedau blaenorol ar waith ond cynnydd wedi llithro yn sgîl gwaith ychwanegol yn deillio o farchnata Plas Tan y Bwlch a chyfarfodydd cymunedau. Anelu i ymgynnull cyfarfod o'r Is-Grwp Asedau yn Ionawr 2025 a'r Cynllun Rheoli Asedau i'w gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2025.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 2.3** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr Astudiaeth Carbon ac ystyried pa adnoddau staff sydd eu hangen i roi unrhyw gamau y cytunwyd arnynt a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar waith** | 2024 | Cyf. Gwas. Corfforaethol<br><br>Pen. Eiddo |
| | **Ch. 1- 2** | **Mae capasiti staff, yr angen i weithio yn draws adrannol a chefnogi pwrcasu Carbon isel ledled yr Awdurdod wedi ei adnabod a swydd newydd 'Swyddog Carbon' wedi ei greu, ei hysbysebu a recriwtio. Bydd y Swyddog newydd yn dechrau yn y rôl Tachwedd 2024.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 2.4 | | **Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i**<br>➢ Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri<br>➢ Cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd<br>➢ Diweddaru Strategaeth Mawndiroedd | Parhaus | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir (CaRhT)<br><br>Pen. Coed Cadwraeth ac Amaeth (CCA) |
| | **Ch. 1 - 2** | **Mae gwaith ar y Strategaeth Goed a Choetiroedd yn symud ymlaen yn dda, bydd drafft terfynol yn mynd gerbron yr Aelodau yn Rhagfyr ac yna allan ar gyfer ymgynghoriad terfynnol dechrau 2025.**<br>**Rhan o waith y tim mawn yw adolygu'r strategaeth mawn ac mae'n cael ei wneud pan mae amserlen yn caniatau, mae gwaith diweddaru data wrthi'n cael ei wneud.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| AC 2.5 | | **Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero" drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolath gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PC yDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd** | Parhaus | Cyf. CaRhT |
| | **Ch. 1-2** | **Mae capasiti staff, yr angen i weithio yn draws adrannol a chefnogi pwrcasu Carbon isel ledled yr Awdurdod wedi ei adnabod a swydd newydd 'Swyddog Carbon' wedi ei greu, ei hysbysebu a recriwtio. Bydd y Swyddog newydd yn dechrau yn y rôl Tachwedd 2024.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 2.6 | | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol** | Parhaus | PW Arweinydd Strategol |
| | **Ch. 1- 2** | **Mae ffocws yr arweinydd strategol wedi bod yn fframio canfyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf yn allbynnau ysgrifenedig y rôl. Mae teitlau gweithredol "strategaeth alluogi" a "Llyfr Bach o Opsiynau" wedi'u disodli gan "Tirweddau Dynodedig: Canllawiau Swyddogion er Budd Natur" a "Ffermio Budd-dal Deuol". Mae'r cyntaf wedi'i rhannu'n bedair adran i ymdrin â therminoleg newydd, templed o gynllun gweithredu adfer natur ar gyfer y tirweddau dynodedig, meysydd ffocws, ac argymhellion pellach. Nod y gwaith hwn yw bod gan staff yr Awdurdod ""lyfryn bwrdd" defnyddiol i'w helpu i gyflawni eu rolau ac i ffermwyr/rheolwyr tir gael cyfeiriad defnyddiol i'w helpu drwy gyfnod o newid dwys a rhywbeth y dylai cyd-fynd yn dda ag unrhyw gynlluniau ar sail ffermio sy'n gysylltiedig â'r tirweddau dynodedig.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.1 | | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Haf 2024 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol (TDd) |
| | **Ch. 1-2** | **Ymchwil desg a chasglu gwybodaeth wedi'i gwblhau.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.2** | | **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025.**<br>➢ **Paratoi adroddiad yn diweddaru i'r Aelodau** | Parhaus - 2025<br><br>Rhag. 2024 | Pen. TDd<br><br>Rheolwr Prosiect y Carneddau |
| | **Ch. 1+2** | **Mae rhaglen waith y Cynllun yn rhedeg yn brydlon, yn unol a'r amserlen. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn fuan yn 2025.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |
| **AC 3.3** | | **Cyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb a sicrhawyd arian Loteri:**<br>**Symud ymlaen a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy** | Parhaus hyd at Hydref 2025 | Pen TDd<br>Swyddog Prosiect TDd |
| | **Ch. 1-2** | **Penderfynwyd cyflawni'r prosiect o fewn sgôp grant Llywodraeth Cymru, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy. Mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |
| **AC 3.4** | | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd (STB) Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru**<br>➢ **Cwblhau a gosod dehongliad o safle Ynydypandy** | Parhaus Hydref 2024 | Pen. TDd. |
| | **Wedi ei Gwblhau**<br>**Ch. 1- 2** | **Dehongli safle Ynysypandy wedi'i gwblhau.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.5 | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth**<br>**Teithiau misol yn parhau gyda nifer o fynychwyr yn amrywio – am geisio ymestyn y gwaith hyrwyddo.** | Parhaus 2024/25 | Pen. Gwas. WaM |
| AC 3.6 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol**<br>**Mae swyddogion yn cyfrannu at waith y grŵp drwy fynychu cyfarfodydd chwarterol, gweithdai a chyflawni rhaglen waith y grwp.** | Parhaus | Pen. TDd. |
| AC 3.7 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau**<br>**Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod fis Mehefin 2024. Agorwyd arddangosfa o waith celf, 'Yr Ysgwrn yn Ysbrydoli' dros yr Haf.** | Rhag. 2024 | Pen. TDd. |
| AC 3.8 | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd**<br>**Cynhaliwyd 5 sesiwn sgiliau traddodiadol hyd yma a phob un yn orlawn. Bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnal yn 2025.** | Rhan 1. Hydref 2024 | Pen. TDd. |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | **MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT** |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 4.1** | (gwyrdd) | **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol** | Parhaus | *Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir |
| | **Ch. 1-2** | **Trafodaethau SFS wedi bod yn ddwys ac yn symud ymlaen i gyflwyno'r haen "cynhwysol/universal" yn y gaeaf. Rhan o drafodaethau startegol ar gynllun Tirweddau Cymru** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 4.2** | (gwyrdd) | **Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri** | Parhaus | Pen. CCA |
| | **Ch. 1- 2** | **Fel yr uchod, yn rhan o drafodaethau strategol.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 5.1 | | Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayyb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri | Haf 2024 | Pen. CCA |
| | **Ch. 1-2** | **Gwaith yn mynd rhagddo yn dda bydd y ddogfen ymgynghorol yn cael ei chyflwyno gaeaf 2024-25** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| AC 5.2 | | Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru | Adroddiad Blynyddol | Pen. RhDaCh |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |
| AC 5.3 | | Unwaith bydd canllawiau LlC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu | Mawrth 2025 | Pen. PC |
| | **Ch.1-2** | **Parhau i aros am ganllawiau LlC.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i’r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.4** | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach**<br>**SMS Dinas Mawddwy bellach wedi ei gwblhau, mae amser sylweddol wedi bod yn cael ei roi i mewn i ddatblygu cynllun Ffermio Cynaladwy gyda Llywodraeth Cymru.**<br>**Mae cais ar gyfer Nature Networks Fund 4 wedi ei roi ymlaen (gyda ffocws ar goed), ac un mewn partneriaeth hefo AHNE y Gogledd ar gyfer Awyr Dywyll.  Mae dau gais wedi ei wneud ir INRS, (un ar gyfer ffermio atgynhyrchiol, ac un ar gyfer rheoli coedtir ar ffermydd yn well).**<br>**Mae gwaith sylweddol hefyd wedi ei roi mewn i ddatblygu’r syniad rhaglen Ffermio Bro gyda Llywodraeth Cymru, bydd mwy o fanylion maes o law.** | Adroddiad diweddaru 2 waith y flwyddyn | Pen CCA<br>Rheolwyr Prosiectau |
| **AC 5.5** | **Ch. 1-2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)**<br>**Y rhaglen waith yma yn mynd ymlaen yn wych ac yn ein galluogi i ddatblygu nifer o raglenni gwaith cyfalaf a darpar brosiectau newydd yn ei sgil.** | Mawrth 2025 | Pen CCA |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH:** **Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.1 | ● (gwyrdd) | Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol | Parhaus | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas. Wardeinio + |
| | **Ch. 1-2** | **Mae'r gwaith yn parhau mewn cydweithrediad rhwng y gwasanaethau cyfathrebu a wardeinio.<br>Mae llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo i gyd ar ein gwefan a'r wybodaeth wedi ei gysoni. Yn edrych am ffyrdd ychwanegol i hyrwyddo a chyfleu teithiau gan ddefnyddio adnoddau megis "drone" i greu clipiau ffilm.** | | |
| | Ch 3<br>Ch. 4 | | | |

● (gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

● (melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

● (coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.2 | Wedi ei Gwblhau | **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol**<br>➢ Cefnogi a chymryd rhan yng nghynllun gwirfoddoli Caru Eryri 2024 gyda phartneriaid gan gynnwys Cymdeithas Eryri<br>➢ Ystyried ac adolygu digwyddiadau gwirfoddoli a Llesiant 2023, diweddaru DPA a gosod targedau ac argymhellion newydd ar gyfer 2024<br>➢ Sefydlu rhaglen wirfoddoli ar gyfer y flwyddyn i ddod<br>➢ Cynnal cyfres o ddigwyddiadau lles<br>➢ Hyrwyddo cyfloeoedd gwirfoddoli ymhellach y tu allan i ranbarth Yr Wyddfa gyda chymorth swyddogion cyfathrebu | Parhaus | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles<br><br>Pen. a/neu Swyddog Cyfathrebu |
| | **Ch. 1-2** | **Swyddog Gwirfoddoli a Lles wedi cwblhau'r uchod, ac wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Aelodau (ym mis Gorffenaf).** | | |
| CC 1.3 | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig** | Parhaus | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | **Ch. 1-2** | **Mae'r gwaith yn parhau ac yn gwella'n flynyddol (gweler adroddiadau blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant). Datblygir cyfleoedd newydd a diddorol i dargedu grwpiau penodol. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach dros gyfnod y gaeaf 2024 i'w cynnig yn 2025.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.4** | (gwyrdd) | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **Adroddiad blynyddol** | | | | |
| **CC 1.5** | (gwyrdd) | **Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i ohirio cynhyrchu Adolygiad CDLl Eryri tan 2025 er mwyn canolbwyntio ar gyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4: Symud ymlaen â bwriad yr Awdurdod i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i newid cartref preswyl parhaol i llety gwyliau neu ail gartref, gyda cherrig milltir allweddol yn cynnwys:**<br>➢ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol cyn Haf 2024<br>➢ Adrodd yn ôl ar y canfyddiadau a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol mewn dull gweithredu yn ystod Hydref 2024<br>➢ Paratoi CCA erbyn Mawrth 2025 a fydd yn rhoi arweiniad manylach ar weithredu<br>➢ Anelu i gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2025 | ➢ Cyn Haf 2024<br>➢ Hydref 2025<br>➢ Mawrth 2025<br>➢ Mehefin 2025 | Cyf. CaRhT<br>Pen. PC |
| | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad ar 6ed o Fawrth 2024, cymeradwyodd yr Aelodau i swyddogion ymgysylltu ar y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio PC Eryri. Cyflwynwyd hysbysiad ynghylch y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar 12 o Ebrill, 2024. Y gofyniad statudol oedd cynnal cyfnod ymgysylltu o 21 diwrnod o leiaf. Er mwyn sicrhau digon o gyfle i'r rhai yr effeithir arnynt ymateb i'r hysbysiad ac i hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau, cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd o 6 wythnos o Ebrill 12 hyd at Mai 24ain, 2024. Mae swyddogion yn y broses o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu ac yn paratoi Adroddiad Ymgynghori i'w gyflwyno i'r Gweithgor Aelodau i'w ystyried cyn i'r Awdurdod wneud ei benderfyniad terfynol ar gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 ai peidio. Mae CCA amlinellol yn cael ei ddrafftio.** | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025
(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.6** | | **Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri (CCE), yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r Iaith Gymraeg.**<br>**Bydd ffenstr ariannu newydd ar gyfer 2024-25 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo o 18 Mawrth 2024** | Mawrth 2025 | Pennaeth Partneriaethau<br><br>Swyddog Prosiect CCE |
| | **Ch. 1-2** | **Dyfarnwyd cyllid i 10 prosiect (rhestrir isod), cyfanswm o £102,688.13. Mae 7 prosiect ar y gweill, 3 heb ddechrau eto. Mae pob prosiect yn parhau ar y trywydd iawn i orffen ar amser.**<br>❖ **Clwb rygbi y Bala – System PV Solar;**<br>❖ **Cyng Cymuned Beddgelert – Offer newydd ar gyfer y maes chwarae;**<br>❖ **Canolfan Prysor, Trawsfynydd – Cysawd Solar PV;**<br>❖ **Clwb Hoci Y Bala – Ail wynebu'r astro turf yn Ysgol Godre'r Berwyn;**<br>❖ **Cyngor Cymuned Bro Garmon – gwelliannau i faes parcio cymunedol Nebo;**<br>❖ **Cyngor Cymuned Ysbyty Ifan – Uwchraddio neuadd y pentref, gwydr dwbl a drystau tân newydd;**<br>❖ **Neuadd Gymuned Llanfairfechan – Cysawd Solar PV:**<br>❖ **Menter Gymunedol Llanuwchllyn Cyf – Cysawd Solar PV**<br>❖ **Neuadd Ogwen – Cegin fasnachol**<br>❖ **Cyngor Cymuned Dolwyddelan – Amryw o brosiectau cyfalaf o'r cynllun cymunedol** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 2.1** | | **Aelodau i gysidro Maniffesto Ieuenctid drafft** | Mai 2024 | Pen. Gwas. WaM Swyddog Pobl Ifanc |
| | **Ch. 1+2** | **Cyflwynwyd y Maniffesto i Weithgor Aelodau Mai 22ain a derbyniwyd sylwadau arno gan Aelodau. Bydd swyddogion yn addasu'r Maniffesto ar gyfer ei gyflwyno i'r Awdurdod mis Medi.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CC 2.2** | | **Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun** | Chwefror 2025 | Pen. Gwas. WaM |
| | **Ch. 1+2** | **Mae'r gwaith wedi parhau gyda creu cyfleuon i'r Ceidwaid ifanc ar draws y Parc. Y cyfleuon wedi amrywio ac wedi cydweithio gyda adrannau eraill. Gwaith wedi cychwyn gyda'r Loteri er mwyn ceisio am gyllid.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.1** | | **Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig. Mae cyfarfod cyntaf y Bartneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2024:**<br>➢ **Cwblhau Cynllun Gweithredu a gweithredu targedau a dangosyddion cysylltiedig** | Rhagfyr 2024 | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | **Ch. 1-2** | **Cynllun Gweithredu cyntaf wedi ei gynhyrchu a'i dderbyn gan y Partneriaid. Bydd pawb yn bwydo fewn i hyn erbyn Mawrth 2025 pryd bydd adolygiad a cynllun gweithredu newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2025-26. Mae'r grŵp tasg Data yn cael ei ail sefydlu i weithio a datblygu dangosyddion hir dymor i'r Cynllun.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.2 | Ch. 1-2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:**<br>➢ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafnidiaeth a pharcio Gogledd Eryri<br>➢ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafnidiaeth yn ardal Nantgwynant.<br>➢ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen<br>**Mae cyfarfodydd cyson yn parhau i'w cynnal. Wedi gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru o mis Mehefin – Tachwedd 2024 trwy secondiad er mwyn gwella cysylltiad rhwng Cynghorau Lleol a Llywodraeth Cymru/NMWTRA a'r Heddlu. Mae'r gwaith yn ateb problemau tymor byr – bydd angen arweniad strategol rhanbarthol i gytuno ymatebion hir dymor.** | Parhaus hyd at Ebrill 2025 | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| CC 3.3 | Ch. 1- 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.**<br>➢ Cyflwyno dau modiwl newydd yn 2024 ar Coed Glaw Celtaidd a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau<br>**Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd.**<br>**Mae'r swyddogion/adrannau perthnasol yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer modiwlau newydd.**<br>**Mae'r Cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae dros 1200 bobl wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri erbyn hyn.** | Parhaus<br>2024 | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.4 | | **Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| **Adroddiad blynyddol** | | | | |
| CC 3.5 | | **Gweithio gyda Trafnidiaeth Cyrmu i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLl fel rhan o'r broses CDLl mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.**<br>➢ Cynorthwyo'r Grŵp Cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni | Mawrth 2025 | Pen. Partneriaethau |
| | **Ch. 1-2** | **Mae swyddogion APCE yn neud pob dim o fewn eu gallu i symud y gwaith yma yn ei flaen – mae angen ymrwymiad y partneriaid eraill i alluogi'r cyflawni symud ymlaen.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.1 | | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Ch. 1+2** | **Rhaglen o weithgareddau Haf wedi'i chynllunio a'i chwblhau.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| CC 4.2 | | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri** | Mawrth 2025 | Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| | **Ch. 1+ 2** | **Mae gwaith ar y rhestr o enwau copaon, rhaeadrau a bylchau ar y gweill. Digwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn yr Hydref.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| CC 4.3 | | **Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:**<br>➢ **Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.** | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | **Ch. 1+2** | **Mae gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru gyda rhai sy'n rhugl ac mae holl wybodaeth a deunydd ar gyfer gwirfoddolwr ar gael yn y ddwy iaith.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.4** | | **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhag. 2025 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynhaliwyd dwy sesiwn cofnodi enwau lleoedd yn ardal y Carneddau.** | | |
| **CC 4.5** | | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **Adroddiad blynyddol** | | **Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu'n effeithiol.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 5.1 | Gwyrdd | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| Adroddiad Blynyddol | | **Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiau uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn 2025 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.** | | |
| CC 5.2 | Gwyrdd | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| Adroddiad Blynyddol | | **Mae hyn wedi ei wneud gan swyddogion a phenderfynwyd i'r adolygiad gychwyn yn 2025 (penderfynwyd ei ohirio am flwyddyn er mwyn caniatau amser i swyddogion weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4).** | | |
| CC 5.3 | Gwyrdd<br>**Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy**<br>**Mae Swyddog Cynnwys Digidol newydd wedi dechrau. Mae'r adran wedi addasu y sianeli digidol sydd bellach yn boblogaidd iawn ac yn cyrraedd mwy o gynulleidfa.** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 1.1 | (gwyrdd) | **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis** | Parhaus Mawrth 2025 | Pen. Adnoddau Dynol (AD) |
| | **Ch. 1- 2** | **Cefnogaeth wedi ei dderbyn gan y cyfarwyddwyr i annog rheolwyr llinell i gwblhau gwerthusiadau yn brydlon sydd wedi cynyddu nifer y gwerthusiadau a gynhaliwyd hyd yma eleni. Mae'r fformat gwerthuso yn asesu lefelau perfformiad staff ac yn nodi gofynion hyfforddi i unai wella perfformiad gwaith neu hyfforddiant a fyddai'n paratoi staff ar gyfer dilyniant gyrfa o fewn yr Awdurdod ac yn sgil hyn mae nifer o sesiynau hyfforddi staff wedi cynyddu 54%.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |
| CW 1.2 | (gwyrdd) | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus Mawrth 2024 | Pen. AD<br>Pen. Gwasanaeth |
| | **Ch. 1 - 4** | **Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid. Mae llawer mwy o gyrsiau wedi ei hychwanegu i ELMS, ein system hyfforddi ar-lein sy'n darparu nifer o gyrsiau hyfforddi dwyieithog i gynorthwyo staff a'u hysbrydoli i symud ymlaen a dysgu disgyblaethau newydd.** | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 1.3 | Ch. 1 - 4 | **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol**<br>Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol. Rhwng y cyrsiau hyfforddi allanol sydd wedi ei trefnu a'r nifer sydd ar gael dros ELMS (portal dysgu arlein) mae llawer mwy o gyfleon hyfforddiant ar gael i staff. Mae polisi dysgu a datblygu wedi'i greu sy'n amlinellu cefnogaeth yr Awdurdod i staff i wella eu gallu ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'w cynorthwyo. | Parhaus Mawrth 2025 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CW 2.1 | Ch. 1- 4 | **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach**<br>Mae'r gwaith yn mynd rhagddo.  Mae Pennaeth Eiddo yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru a bydd y Swyddog Carbon newydd a benodwyd yn ymuno pan fydd yn dechrau yn y rôl er mwyn adnabod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio gyda partneriaid. | Mawrth 2025 | Pen. Eiddo |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 2.2** | (gwyrdd) | **Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:** | Mawrth 2025 | Pen. AD |
| | | ➢ Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau: byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br>➢ Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb<br>➢ Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu | | |
| | **Ch. 1-2** | **Mae asesiadau iechyd staff wedi cychwyn gyda'r grŵp cyntaf wedi cael profion pwysedd gwaed, golwg, clyw, ysgyfaint a diabetes.**<br>**Rydym wedi cychwyn adrodd yn chwarterol wrth y tîm rheoli ar y nifer o absenoldebau drwy salwch fesul adran er mwyn creu ffocws ar y lefelau a'r rhesymau dros yr absenoldebau. Bydd polisi Presenoldeb newydd yn cael ei greu er mwyn gosod trefn gadarn ar gyfer cefnogi aelodau staff sydd yn absennol o'r gwaith drwy gynnig nifer gwahanol fathau o gefnogaeth. Mae asesiadau risg straen a Chynlluniau Gweithredu Lles yn cael ei greu gydag aelodau staff sy'n dioddef o absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen neu'n dychwelyd yn ddiweddar ar ol cyfnod o absenoldeb yn ymwneud â straen.**<br>**Mae'r fforwm staff sydd ar ei newydd wedd yn fformat da ar gyfer rhannu syniadau a chreu cyfleoedd i'r holl staff gael cipolwg ar wahanol agweddau o waith a phrosiectau'r Parc drwy drefnu diwrnodau cysgodi ac ymweliadau â gwahanol adrannau. Mae syniadau yn cael eu cynnig ar gyfer dyddiau allan yn y maes, diwrnodau holl staff a ffyrdd i gadw'n heini drwy ymarferon wrth gyfrifiadur.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

Tud. 28

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.1** | Wedi Cwblhau<br>**Ch. 1 + 2** | **Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf wedi ei chyflwyno i'r Awdurdod.**<br>➢ **Cyflwyno'r drydedd adroddiad cynnydd i'r Awdurdod**<br><br>**Cyflwynwyd y drydedd adroddiad cynnydd i'r Aelodau yn ystod y Gwanwyn ac mae copi ar gael ar wefan yr Awdurdod. Bydd Cynllun Eryri yn cael ei adolygu yn 2025 ac mae gwaith paratoadol wedi dechrau.** | Mehefin 2024 | Pen. Partneriaethau |
| **CW 3.2** | **Ch. 1- 4** | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru**<br><br>**Mae ymarfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd. Cynhaliwyd seminar y Bartneriaeth mis Mai. Cafwyd trafodaethau diddorol ac addysgiadol ymhlith y nifer dda oedd yn bresennol.** | Parhaus | PW |
| **CW 3.3** | **Ch. 1- 2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br><br>**Bydd y PW yn mynychu'r holl gyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae cyfleoedd cydweithredol yn cael eu datblygu gan wahanol wasanaethau'r Awdurdod wrth i gyfleoedd godi.** | Parhaus | PW |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.4** | Ch. 1- 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br>**Mae'r PW a'r Cadeirydd yn parhau i fynychu'r cyfarfodydd. Mae swyddog o BC Eryri wedi ei (ch)gyf-ethol i eistedd ar Is-Bwyllgor Strategol Trafnidiaeth Gogledd Cymru** | Parhaus | Cyf. CaRhT |
| **CW 3.5** | **Ch. 1- 2**<br>Qtr. 3<br>Ch. 4 | **Er mwyn cyflawni adolygiad Cynllun Eryri 2025 yn unol â'r amserlen, bydd data ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gasglu a'i ddehongli gyda mewnbwn gan gydweithwyr mewnol ac allanol erbyn diwedd 2024. Cyflwyno crynodeb i'r Aelodau.**<br>**Mae'r gwaith yn parhau bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau cyn diwedd 2024.** | Rhag. 2024 | Pen. Partneriaethau |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.1** | **Ch. 1+2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod**<br>**Mae cyfartaledd presenoldeb Aelodau yn eithaf cyson ee :**<br>**2 gyfarfod o'r Awdurdod (Ebrill a Mehefin) – 86%**<br>**4 cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio (Ebrill, Mai, Mehefin a Medi) – 81.75%** | Mawrth 2025 | Swyddog Gwas. Democrataidd |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.2** | | **Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu**<br>➢ **Parhau i gefnogi LlC i fireinio a darparu rhaglen hyfforddiant ar egwyddorion arfer llywodraethu da ac atebolrwydd i Aelodau'r Awdurdod** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | **Ch. 1- 2** | **Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant "Llywodraethu Ariannol Effeithiol" ym mis Mehefin ac mae dyddiadau ar gyfer hyfforddiant "Llywodraethu Risg" wedi ei drefnu ar gyfer diwedd y flwyddyn.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.1** | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio) |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gynnal sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grwp a gan ysgolion ac mae nifer o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd. Mae denu rhagor o wirfoddolwyr cyson yn parhau yn her.** | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.2** | | **Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1- 2** | **Gwaith yn parhau ar gyfer adrodd ar ddangosyddion 2024 yn y flwyddyn newydd.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 5.3** | | **Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned** | Hydref 2024 Trefnu o leiaf 1 cyfarfod | Pennaeth Polisi<br>Pen. Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| | **Ch. 1- 2** | **Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CW 5.4** | | **Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri** | Parhaus | Rheolwr Mynediad |
| | **Ch. 1- 2** | **Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd y Fforymau Mynediad a gynhelir dair gwaith y flwyddyn yng ngogledd a de'r PC. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn y gwanwyn a'r haf gyda rai pellach wedi'u trefnu i'w cynnal mis Chwefror, 2025.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.5** | (gwyrdd)<br>Cyfarfod Blynyddol | **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol**<br>**Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu i'w gynnal ym mis Ionawr, 2025** | Cyfarfod Blynyddol | Pennaeth CCA |
| **CW 5.6** | (gwyrdd)<br>**Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>➢ **Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod**<br>**Mae'r gwaith yn symud ymlaen i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar ran yr Awdurdod erbyn Mawrth 2025.** | Parhaus<br><br>Mawrth 2025 | Pen. Partneriaethau Pen.PC<br><br>Swyddog Ymgysylltu Cymunedol |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 6 | CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CW 6.1**<br>(hecsagon) | (gwyrdd)<br>**Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Gan Ddefnyddio dull gweithredu deuol, adolygu model gweithredu Plas Tan y Bwlch:**<br>➢ **Ceisio gweithio mewn partneriaeth ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch a**<br>➢ **Bwrw ymlaen â'r paratoadau ar gyfer gwerthu'r eiddo ar y farchnad agored os na fydd gweithio mewn partneriaeh yn ymarferol**<br>**Bydd papur yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod mis Tachwedd gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ar y materion sydd angen eu symud ymlaen dros fisoedd y gaeaf cyn i'r mater gael ei ystyried ymhellach i'w benderfynu yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill 2025.** | Mawrth 2025 | PW<br><br>Cyf. Gwas. Corfforaethol |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 6.2** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Adolygu ffioedd meysydd parcio yr Awdurdod ac, os yn berthnasol, stmud ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer cynyddu'r ffioedd yn unol â darparwyr meysydd parcio eraill yn yr ardal**<br>**Gwaith cychwynnol ar y gweill, adolygu tymor 2024 ar y cyd gyda'r heddwas ar secondiad a chytuno blaenoriaethau gan gynnwys derbyn cyngor cyfreithiol ar ddulliau rheoli i'r dyfodol er mwyn atal aros dros nos. Bwriedir treialu modelau rheoli newydd o amgylch Llyn Tegid yn ystod tymor 2025, gan gynnwys ffioedd gweithgareddau y Llyn. Adolygiad a phapur i'w gyflwyno i bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2025.** | Mawrth 2025 | Pen. Eiddo |
| **CW 6.3** | **Ch. 1- 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Symud ymlaen i adolygu potensial masnachol Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod**<br>**Briff ar gyfer ail-ddatblygu canolfan Betws y Coed yn cael ei ddatblygu.** | Mawrth 2025 | Pen. TDd. Rheolwr Canolfannu Gwyb. |

## CANLYNIADAU

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

**CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)

**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)***

***CW6:** Byddwn yn cyflawni o dewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

*Amcan newydd Mawrth 2024.

## LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4** |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | **CC 3.3**<br>**CW 2.3** |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | **AC 5.5 (PAWS)** |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 5.1 - AC 5.5** |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | **AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4** |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas | **AC 5.1** |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | **CW 3.2** |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | **AC 1.10** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.1** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | **-** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5**<br>**CW 5.3** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | **-** |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol | **-** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.9** |
| Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.7** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2**<br>**CW 5.1** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

# LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.2 CW 3.3** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau ariannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | **AC 2.5** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |

**EITEM RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD:** | 27 Tachwedd, 2024 |
| **TEITL:** | **ADRODDIAD DIWEDDARU GRANTIAU ARIANNU ALLANOL** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Darparu diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol |

**1. CEFNDIR:**

1.1 Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2022 cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio cyllid grant allanol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae diweddariad wedi'i ddarparu bob 6 mis ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod.

1.2 Yn dilyn gohebiaeth â Swyddfa’r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr a’r angen i sicrhau bod aelodau’n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo prosiectau/rhaglenni, bu’r Aelodau’n trafod ac yn mabwysiadu’r broses fel y’i hatodwyd yn Atodiad 2. (Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2022).

1.3 Amlygodd Archwilio Cymru y pwysau y mae cefnogi darpariaeth trwy ffynonellau grant yn ei roi ar sefydliad. Mae mesurau wedi’u rhoi ar waith i fynd i’r afael â rhai o’r materion a nodwyd. Mae'r pecyn cymorth prosiect mabwysiedig (a gymeradwywyd gan Weithgor aelodau 22.05.19 ac a ddiwygiwyd ers 28.01.22 i gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau) yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion i asesu effaith unrhyw brosiect ar yr Awdurdod.

2. **TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY (TCLlC) CYLLID CYFALAF LLYWODRAETH CYMRU**:

2.1 Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru raglen cyllid cyfalaf tair blynedd ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2025 - £800,000 yn 2022-23, £850,000 yn 2023-24 a 2024-25, sef cyfanswm y cyllid o hyd at £2,5000, 000 dros y cyfnod o dair blynedd.

2.2 Y themâu strategol a'r dyraniad grant ar gyfer cyllid TCLlC 2022-25 yw:

- Twristiaeth Gynaliadwy £897,000
- Cefnogi Cymunedau £480,000
- Datgarboneiddio £553,000
- Adfer Natur £570,000

## 2.3 Prosiectau a Gymeradwywyd gan TCLlC Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-25:

| Swyddog Arweiniol APCE<br><br>Pennaeth: | Thema LLC a<br>Phrosiectau Strategol APCE y cytunwyd arnynt | Ariannu 2022/25 £0'000 |
|---|---|---|
| Cadwraeth, Coedydd ac Amaethyddiaeth | **ADFER NATUR:**<br>Arolygon coed a choetiroedd hynafol<br>Argymhellion yr arolwg cyflawni a chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt<br>Gwaith rhywogaethau a dargedir<br>Rheoli Llifogydd yn Naturiol | **570** |
| Eiddo | **CYFLYMU DATGARBONEIDDIO:**<br>Llyn Tegid – paneli solar<br>Effeithlonrwydd ynni'r ystâd<br>Pwyntiau gwefru trydan | **553** |
| Partneriaethau<br>Tref. Ddiwylliannol | **CEFNOGI CYMUNEDAU CADARN A GWYRDD:**<br>Cronfa Gymunedol Eryri<br>Ardaloedd Cadwraeth – Effeithlonrwydd Ynni | **480** |
| Wardeiniaid a Mynediad<br><br><br><br><br><br><br>Tref. Ddiwylliannol<br>Partneriaethau | **DARPARU TWRISTIAETH GYNALIADWY:**<br>Twristiaeth Gynaliadwy: Cynlluniau Lleol<br>Llwybr Cynwch<br>Astudiaeth Dichonoldeb: Porthmadog – Rhyd Ddu<br>Cylchdaith Cylchdaith Yr Wyddfa : Cwm Dyli<br>Taith Gerdded Gylchol Cylchdaith yr Wyddfa: Nant Peris<br>Llwybr y Mwynwyr<br>System Rheoli Mynediad/Llwybrau<br>Llyn Tegid/Cwm Rhwyddfor<br>Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Ardudwy<br>Mentrau Twristiaeth a Thrafnidiaeth Gynaliadwy | **897** |
| | **CYFANSWM** | **£2,500,000** |

## 2.4 Amrywiadau o fewn y flwyddyn i gyflenwi Prosiectau Darparu Twristiaeth Gynaliadwy:

**Amrywiadau o fewn y flwyddyn i gyflenwi Prosiectau Darparu Twristiaeth Gynaliadwy:** Oherwydd diffyg contractwyr cymwys a tywydd gwael yn 2023-24 nid oedd rhai prosiectau yn gallu symud ymlaen gan arwain at danwariant o £174,560. Derbyniwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf i'r gwaith amgen isod fynd rhagddo:

| Prosiect | £'000 | Allbynnau a chanlyniadau |
|---|---|---|
| **Gosod cownteri llwybrau troed** | £12,500 | Gwella gwybodaeth data am ddefnydd llwybrau troed ac adnabod meysydd ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol |
| **Gosod gwefrwyr beiciau yn Ogwen** | £10,000 | Gwella rhwydwaith teithio llesol strategol ar gyfer beiciau o fewn PC Eryri |
| **Gwaith ar Llwybr Pyg** | £31,250 | Gosod rhagor o waith gwella arwyddion cyfeiriadol i'r HTC ar yr Wyddfa i gynyddu diogelwch defnyddwyr a lleihau erydiad i ecosystem mynyddig sensitif |

| | | |
|---|---|---|
| **Pont newydd Lôn Gwyrfai** | £56,250 | Pont newydd ar yr HTC fydd yn adfer mynediad ar hyd rhan o Lwybr Llechi Eryri, sy'n lwybr tramwy aml-ddefnyddwyr. |
| **Canolfan Wybodaeth Betws y Coed** | £18,650 | Gwelliannau mewnol i ystafell de yn unol â gwaith cynaladwyedd gan arian at wella hyfywedd a gwell profiad i ymwelwyr. |
| **Cronfa Cymunedau Eryri** | £33,410 | Cyfraniad ychwanegol i'r gronfa er mwyn targedau prosiectau cymunedol digarboneiddio. |
| **Gwella mynediad, Pwll Llwyd, Cwm Eigiau** | £12,500 | Rhan o waith adfer pont strategol a hanesyddol bwysig a nodwyd gan brosiect Partneriaeth y Carneddau. |

3. **CRYNODEB O BROSIECTAU/ RHAGLENNI GWEITHREDOL PRESENNOL:**

3.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r prosiectau/ rhaglenni gweithredol cyfredol, mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad 3.

| PROSIECT | AMCAN O'R DYDDIAD DARFOD | AMCAN WERTH £ |
|---|---|---|
| Treftadaeth Treflun Dolgellau (CTLC) | Prosiect wedi ei gwblhau Mawrth 2024 | **1,498,718** |
| Carneddau (CTLC) | Mawrth 2026 | **4,170,776** |
| Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE) | Gorffennaf 2027 | **7,604,648** |
| Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru. | Mawrth 2025 | **227,000** |
| Cysylltedd y Carneddau, y Grid Cenedlaethol | 2025 | **200,000** |
| **CYFANSWM ARIAN GRANT ALLANOL PROSIECTAU** | | **£13,701,142** |

3.2 **Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a Sefydliad y Parc Cenedlaethol:**
Mae cyfleoedd ariannu pellach ar raddfa lai yn cael eu darparu trwy ymdrechion naill ai Partneriaeth y Parc Cenedlaethol neu Sefydliad y Parc Cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r aelodau wrth iddynt gael eu cynnig i'r Awdurdod.

3.2.1 **Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol, Prosiect Ailwefru Mewn Natur, BMW** gwerth £65K + cyfraniad amser staff PC Eryri.
Diolch i nawdd trwy BMW mewn partneriaeth â Pharciau Cenedlaethol y DU, mae perchnogion tir yn ardal uchaf Afon Dyfrdwy wedi elwa o waith i uwchraddio terfynau caeau i wrychoedd sy'n well i fywyd gwyllt a'r hinsawdd, yn ogystal â phlannu coed. Mae gwaith ffensio strategol yn annog glaswelltir rhonc fydd yn gweithredu fel hidlau dŵr naturiol.

Wedi ei gydlynu gan PC Eryri, mae buddion y cynllun yn bellgyrhaeddol. Yn ogystal â darparu strwythurau rheoli stoc cryf a chadaran a chysgod naturiol, mae gwrychoedd yn darparu coridor diogel i fywyd gwyllt symud o gwmpas; ac yn gwneud eu rhan i gefnogi taith y Parc tuag at sero-net oherwydd eu gallu i storio carbon. Maent hefyd yn gweithredu fel rhwystr naturiol sy'n arafu treiddiad dŵr glaw a lleihau'r lefelau o ddyddodion a ffosffadau sy'n cael eu rhyddhau i'r cyrsiau dŵr. Trwy leihau'r lefel o ffosffadau a ryddheir o dir amaethyddol i Lyn Tegid gerllaw, a chan hynny'n gwella ansawdd y dŵr, bydd rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladaol fel y falwoden Ludiog a'r Gwyniad, yn parhau i ffynnu. Mae'r gwaith hefyd yn arwain at leihad yn ymddangosiad blŵm algaidd gwyrddlas yn y llyn.

Mae'r Cynllun bellach wedi dirwyn i ben o ran y gwaith cyfalaf ar y ddaear. Rhai o'r prif allbynnau oedd 2.8 Km o wrychoedd newydd wedi ei plannu ac 810m o wrychoedd wedi ei adfer drwy blygu a bôn docio. Creuwyd 3 o byllau neu llynnoedd bychan a 8 argae coed bras ar hyd 415m o nant i arafu llif dwr gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan ymgymerwyr a thir feddianwyr lleol.
Mae'r prosiect wedi ei dderbyn yn dda yn lleol ac rydym yn edrych ymlaen at weld buddion ar y ddaear.

4. **CAIS NEWYDD, CRONFA RHWYDWAITH NATUR:**
Mae cais wedi ei gyflwyno i Gronfa Rhwydweithiau Natur Cronfa Dreftadaeth y Loteri gwerth tua £968k.

Roedd y cais yn amlinellu cynigion cynnal rhaglen tair blynedd yn canolbwyntio ar reoli coetiroedd hynafol yn well o fewn ardaloedd coedwigoedd glaw er mwyn gwella cyflwr yr ACA a'r SoDdGA. Mae'r safleoedd o fewn neu'n agos at safleoedd ACA Coedydd Derw a safloe BAT Meirion. Byddai'r prosiect yn adeiladu ar waith a ddechreuwyd eisoes o fewn cynllun Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru.

Mae amcanion i gyd fynd yn cynnwys creu prentisiaethau, gweithio gyda gwirfoddolwyr, sesiynau ymgysylltu gyda ysgolion, arddangosfeydd a digwyddiadau. Byddai'r prosiect yn cefnogi tair swydd newydd – Rheolwr Prosiect, Swyddog Cefnogi Prosiect a dau Brentis Coedwigaeth ar leoliad 12 mis. Y bwriad yw y bydd y Parc Cenedlaethol yn arwain y prosiect ar ran partneriaeth ehangach.
Os bydd y cais yn llwyddiannus bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ebrill 2025 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2028.

5. **PROSIECTAU'R DYFODOL:**

5.1 Ers 2020 mae Aelodau wedi darparu cyfeiriad strategol i Swyddogion o ran blaenoriaethau'r Awdurdod wrth wneud cais am arian grant. Yn dilyn yr adroddiad diwethaf gofynnodd yr aelodau am i flaenoriaethau o'r fath gael eu grwpio fel penawdau thematig yn hytrach na rhestr o brosiectau a ffafrir. Mae hwn wedi'i ddiweddaru a gellir ei weld yn Atodiad 1.

5.2 Mae'r Aelodau'n ymwybodol o'r amserlenni sy'n ymwneud â rhai ceisiadau grant a dyna pam mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau yn flynyddol.

Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r siart llif sy'n dangos sut mae'r Awdurdod yn ystyried/cymeradwyo cynigion grant. Yn dilyn cyngor Archwilio Cymru, mae Aelodau wedi cadarnhau bod angen cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer cynigion grant yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn.
- Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cytûn.
- Unrhyw gynnig a gyfeirir at aelodau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr
- Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw terfyn ariannol y cytunwyd arno (£150,000)

Cynigion y dylid eu nodi yw:

- Rhandaliadau blynyddol mewn rhaglen aml-flwyddyn gymeradwy
- Unrhyw brosiect yn ystod y flwyddyn islaw trothwy y cytunwyd arno.

**6. ARGYMHELLION:**
**6.1 Nodi'r prosiectau arian cyfalaf 2022-2025**
**6.2 Nodi'r amrwymiad i brosiectau Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (2.4)**
**6.3 Cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 1)**
**6.4 Nodi'r Siart Llif (Atodiad 2)**
**6.5 Nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 3)**

.JO/PaA.27 11 24

**ATODIAD 1**

## BLAENORIAETHAU APCE AR GYFER CYNIGION CYFALAF A REFENIW:

Mae’r Aelodau’n ystyried blaenoriaethau ceisiadau grant yr Awdurdod yn flynyddol. Mewn blynyddoedd blaenorol, nodwyd y rhain fel prosiectau penodol. Yn unol â chais yr aelodau, mae'r rhain bellach o dan benawdau thematig strategol y gellir eu cysylltu â'n dogfennau strategol a statudol.

1. Adferiad Natur,
2. Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd,
3. Rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau pwysau pobl ar ein hamgylchedd a'n cymunedau,
5. Datblygu cyfleoedd hamdden newydd/gwell (cerdded/beicio/marchogaeth),
6. Datblygu cyfleoedd lles,
7. Cynigion datgarboneiddio – mewnol ac allanol i'r Awdurdod,
8. Hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg gyda’n defnyddwyr/cwsmeriaid,
9. Datblygu economi twristiaeth gynaliadwy,
10. Cefnogi pobl ifanc,
11. Rheolaeth a dealltwriaeth o'n Rhinweddau Arbennig.

**ATODIAD 2.**

## CYLLID ALLANOL : DATBLYGU A CHYMERADWYO RHAGLENNI / PROSIECTAU

- CYNLLUN RHEOLAETH Y PARC CENEDLAETHOL
- DATGANIAD LLESIANT
- CYNLLUN DATBLYGU ERYRI
- BLAENORIAETHAU LLYWDORAETH CYMRU A GWEINIDOGAETHOL

↓

**BLAENORIAETHAU AELODAU/AWDURDOD ar gyfer PROSIECTAU A RHAGLENNI (CYLLID ALLANOL)**

↓

**AELODAU'N ADOLYGU BLAENORIAETHAU A MONITRO CYNNYDD**

↓

**DATBLYGU PROSIECT / RHAGLEN (Swyddog)**

- Cyfleoedd Ariannu
- Partneriaethau
- Cydweddu â Dibenion y Parc Cenedlaethol
- Cydweddu â Blaenoriaethau'r Awdurdod
- Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau
  (Amserlenni, Costau, Gallu i Gyflawni, Cynhwysedd, Strategaeth Ymadael, Risgiau i Enw Da ac ati)

↓

**Y BWRIAD: Tim Rheoli / Cadeirydd**

↓

**Y CYNNIG: Derbyn / Gwrthod (PW / Cadeirydd)**

↓

**HYSBYSU AELODAU (Awdurdod / PaA)**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
JO/Cymeradwyo Prosiectau Cyllid Allanol

**TROSOLWG O BRIF BROSIECTAU CYFREDOL PCE DIWEDDARIAD 6 MISOL: EBRILL - MEDI 2024** **ATODIAD 3**

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI, 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **PARTNERIAETH TIRWEDD Y CARNEDDAU**<br><br>Helpu i warchod treftadaeth o dan fygythiad y Carneddau | Ionawr 2020<br>⇩<br>~~30.09.2024~~<br>31.12.2025<br>⇩<br>Mae cyfnod estyngedig 15 mis wedi ei ganiatau gan Gronfa Treftadaeth hyd at Rhagfyr 2025. Gyda dyddiad cau swyddogol y prosiect Mawrth 2026.<br><br>**£4,170,776**<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | **Amserlen:** Mae'r Gronfa Dreftadaeth wedi cymeradwyo yn ffurfiol ein cynnig ar gyfer estyniad digost i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Mae'r estyniad hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Mae cynnydd da wedi ei wneud er gwaethaf Cofid-19. Mae ymarfer ail-broffilio o holl amserlenni gweithgaredd a phroffiliau gwariant prosiectau ar y gweill, a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes.<br><br>**Tynnu arian cyfatebol yn ôl â'r bwlch cyllido o ganlyniad i hynny** Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda chyllidwyr i sicrhau bod yr holl ofynion cyllido a dibenion cymeradwy yn cael eu bodloni.<br><br>**Diwddariad:** Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau sy'n rhwymo'r gyfraith ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. | **Cylchdaith y Carneddau:** Creu llwybr cerdded lefel isel 63km + arwyddion, gatiau ac ati<br><br>**Rhaglen Weithgaredd Ysgolion / Gwirfoddolwyr. Eiriolaeth dros yr Ucheldiroedd: Ymgysylltu:**<br><br>**Treftadaeth Ddiwylliannol â'r Amgylchedd Hanesyddol**<br><br>**Cadwraeth Adnoddau Naturiol:**<br><br>**Lleisiau'r Carneddau:** | **Mae'r rhaglen a'r gyllideb yn cael eu hadolygu'n barhaus ac mae gwaith y prosiect wedi cynyddu a chyflymu eleni.**<br><br>**Mae cyllid CNC wedi'i gadarnhau ar ebost ac mae swyddogion yn trefnu'r rhaglen waith ar gyfer blwyddyn derfynol y Cynllun er mwyn cadarnhau ar ba brosiectau fydd yr arian yn cael ei wario.**<br><br>**Mae materion staffio wedi sefydlogi ac mae tim llawn gennym erbyn hyn. Mae'r tim prosiect yn cydweithio'n arbennig o dda ac yn cyflawni rhaglenni gwaith prysur yn effeithiol.**<br><br>**Mae'r wefan bellach yn fyw ac mae' swyddogion y prosiect yn ychwanegu at y cynnwys.**<br><br>**Mae gwaith ymgysylltu ag ysgolion wedi cyflymu ac mae ymgysylliad cymunedol yn parhau trwy brosiectau a grantiau cymunedol.**<br><br>**Mae gwaith i ddatblygu adnoddau addysgol yn barhaus.**<br><br>**Yn ddiweddar comisiynwyd dehongli yn allanol a bydd comisiynau dehongli pellach yn cael eu cychwyn ar gyfer safleoedd penodol yn ystod y misoedd nesaf.**<br><br>**Adroddir i gyllidwyr mewn modd amserol a chyflwynir a derbynnir hawliadau am daliadau yn unol ag amserlen y prosiect.**<br><br>**Mae'r Rheolwr Prosiect yn cyweithio gyda phartneriaid ar hyn o bryd i gynllunio cynlluniau gwaddol y Cynllun, gan gynnwys eu hariannu. Bydd rhain yn cael eu gweithredu dros gyfnod 5-10 mlynedd o ddiwedd y Cynllun.** |

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD EBRILL - MEDI, 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU LIFE**<br>Cynnyrch degawd o ymdrech i gaffael cyllid trwy raglen Natur a Bioamrywiaeth LIFE y Comisiwn Ewropeaidd i fynd i'r afael â bygythiad *Rhododendron ponticum* (Rp) ar goetiroedd derw brodorol ffin môr yr Iwerydd yng Nghymru. | ~~Awst 2018~~<br>⇩<br>~~Gorffennaf 2025~~<br><br>Gorffennaf 2027<br><br>**£7,604,648**<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | ❖ Methu â llofnodi cytundebau 20 mlynedd<br>❖ Lefelau staffio a throsiant<br>❖ Y targedau yn fwy uchelgeisiol a heriol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Targedau ddim yn cael eu cyflawni<br><br>Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a'r cerrig milltir a nodwyd ac eithrio 100% yn arwyddo confensiynau 20 mlynedd (ac effeithiau canlyniadol ar gyflawni gwarediad o 100%), fel y trafodwyd yn adran 5 o'r adroddiad diweddaru llawn. | 1. Gwaredu *Rhododendron ponticum* o 5 ACA a'r ardal glustogi<br>DPA = **7,961.20ha**<br><br>2. Ymgymryd â rheolaeth coetirol arall gan gynnwys **adfer 180ha** o goetir PAWS a chyflwyno pori cadwraeth ar safleoedd coetirol.<br><br>3. Creu Pecyn Cymorth Rheoli Rp sy'n cymeradwyo'r dull 3 cham o ddileu Rp, ac yn cynnal lleiafswm o 20 o ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio a 12 astudiaeth achos sy'n gysylltiedig ag amcanion y prosiect.<br><br>4. Ymgysylltu ag o leiaf 2,100 aelod o'r cyhoedd wedi'u lleoli mewn cymunedau targed yng Nghymru, gan gynnwys o leiaf 800 o ddisgyblion ysgol. (80 sesiwn ysgol) | **Erbyn diwedd mis Medi 2024 mae 9,677.05ha o dir o dan gytundebau rheoli Rp.**<br><br>**177.79 ha o waith adfer coetir PAWS wedi ei gwblhau neu ar waith**<br><br>**Wedi cyflwyno pori cadwraethol i 297ha o goetir (yn erbyn DPA o 227 ha).**<br><br>**211.2 ha o waith rheoli coetir "arall" wedi'i gwblhau (yn erbyn targed DPA o 130ha)**<br><br>➢ **Mae'r pecyn cymorth Rp wedi ei gyhoeddi**<br>➢ **Cynhaliwyd 21 o ddigwyddiadau arddangos, gan gyrraedd cynulleidfa o 415 o bobl**<br>➢ **Cynhyrchwyd 5 astudiaeth achos hyd yma**<br><br>➢ **Mae'r nifer o bobl wedi'u ymgysylltu â hwy yn sylweddol uwch na tharged y DPA o 2,100, gyda dros 8,703 wedi'u hymgysylltu**<br>➢ **Cwblhawyd 78 o sesiynau ysgol/coleg gan gyrraedd 1,601 o ddisgyblion a 199 o athrawon/staff . (Yn erbyn DPA o 800)**<br>➢ **Cynhaliwyd 5 sesiwn "hyfforddi'r hyfforddwyr" gan gyrraedd 36 o unigolion.** |

| PROSIECT WEDI EI GWBLHAU : 31.03.2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT A Manylion** | **Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid** | **(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod** | **CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU** | **CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL - MEDI, 2024** |
| **PROSIECT CTLC TREFTADAETH TREFWEDD DOLGELLAU**<br><br>Yn cyfuno amddiffyn a gwella trefwedd unigryw'r dref â gwneud defnydd llawn ohoni i ailgysylltu trigolion ac ymwelwyr heddiw â hanes y gymuned | 2016<br>⇩<br>~~31.12.2022~~<br>~~31.12.2023~~<br>31.03.2024<br><br>**£1,498,718**<br><br>Tynnu cyllid CTL i lawr bob chwarter. Sicrhawyd yr holl arian allanol<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | ❖ Effaith Covid-19<br>❖ Colli Rheolwr Prosiect neu staff cymorth cyn diwedd y prosiect<br>❖ Cost prosiectau yn uwch na'r disgwyl | Gwella cyflwr adeiladau hanesyddol yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau, trwy atgyweirio adeiladau hanesyddol, adfer nodweddion pensaernïol, ailddefnyddio arwynebedd llawr diangen a gwaith tir cyhoeddus yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau gan roi blaenoriaeth i adeiladau masnachol rhestredig. Mae'r prosiect yn dilyn yr egwyddorion a'r arfer gorau wrth warchod adeiladau hanesyddol a gwella eu heffeithlonrwydd ynni. | **Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau yn llwyddiannus a'r gwerthusiad terfynol wedi'i dderbyn. Mae'r rheolwr prosiect yn cwblhau'r hawliad terfynol i'r arianwyr ar hyn o bryd.**<br><br>**Bwriedir cyflwyno datganiad o ddiddordeb ar gyfer prosiect newydd yn ardal gadwraeth Dolgellau erbyn dechrau 2025.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI, 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **PARTNERIAETH AWYR DYWYLL**<br><br>Nod y prosiect yw lleihau effeithiau niweidiol llygredd golau ar iechyd pobl, bioamrywiaeth a'r noswedd trwy addysg, allgymorth cymunedol a thrwy weithredu ôl-ffitiadau goleuo. | Ionawr 2019<br>⇩<br>~~2022~~<br>2024<br><br>Partneriaid:<br>3 x AoDdGA : Pen Llŷn, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy<br><br>**£227,000+**<br><br>APCE: £40mil<br>Partneriaid: £87mil<br>Cyllid ychwanegol gan LlC: £100mil | ➢ Swyddog yn gadael y swydd: mae angen rhaglen fonitro flynyddol i gynnal statws yr Awyr Dywyll.<br><br>➢ Mae angen monitro llygredd golau yn barhaus gyda thystiolaeth am ddigwyddiadau ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r IDA. Gellir diddymu'r dynodiad os na chyflawnir hyn.<br><br>➢ Wrth i'r prosiect barhau i dyfu fe allai fynd yn rhy fawr i un swyddog prosiect ei reoli.<br><br>➢ Gallai'r SP fynd i ffwrdd yn sâl dros y tymor hir<br><br>➢ Wedi addasu swydd ddsigrifiad Swyddog Prosiect Nos gan olygu fod costau wedi codi ar gyfer y rol.<br><br>➢ Costau staffio uwch ar y swyddog craidd a arianir gan pertneriaeth 4 tirwedd dynodedig.<br><br>➢ Pryderon am chwyddiant ar effeithiau ar y pertneriaid. | Hyfforddi grŵp craidd o wirfoddolwyr i fonitro'r awyr dywyll o amgylch y Parc.<br><br>Cynnal ôl-ffitio ar safleoedd allweddol y Parc Cenedlaethol fel CC Betws Y Coed.<br><br>Cwblhau 3 cais awyd dywyll ar gyfer AOHNE<br><br>Cynnal 1 digwyddiad y mis ar-lein | ➢ **Mae Camau 1 a 2 o'r prosiect Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ac yn unol â'r amserlen.**<br><br>➢ **Bydd Cam 3 yn cael ei gwblhau erbyn 25 Mawrth 2025. Mae gwaith wedi ei gwblhau yn y safleoedd canlynol yn Eryri: Gwersyll Hyfforddi yr MOD, Capel Curig, Gwesty Llyn Tegid. Dylai safle Glan Llyn gael ei gwblhau dros fis Rhagfyr. Mae'r ddau eiddo ar Lyn Tegid wedi'u blaenoriaethau gan eu bod yn cael effaith sylweddol ar yr ardal ehangach ac ecoleg Llyn Tegid, sy'n safle RAMSAR o bwysigrwydd rhyngwladol. Gwyddom fod Golau Artiffisial yn y Nos (Artificial Light at Night, ALAN) yn cael effeithiau andwyol ar ymddygiad rhywogaethau Coregonid, megis Coregonus lavaretus, Gwyniad, a Llyn Tegid yn gynefin pwysig iddynt.**<br><br>➢ **Mae goleuadau maes parcio Betws-y-Coed wedi eu prynnu a dylid eu danfon erbyn 14.11. Ar y pwynt hwn bydd y gwaith gosod yn cael ei drosglwyddo i'r Adran Eiddo.**<br><br>➢ **Mae gweithgor wedi'i ddatblygu gyda CNC. Mae'r grŵp wedi cael caniatad gan Lywodraeth Cymru i ddrafftio dogfen genedlaethol "Canllawiau Goleuo Da". Byddai hwn yn gam mawr ymlaen i ddiogelu awyr dywyll Cymru a byddai'r canllawiau'n berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r gwaith bron wedi'i gwblhau, disgwylir iddo gael ei lansio Chwefror 2025.**<br><br>➢ **Mae bid ar gyfer NNF4 wedi ei gyflwyno mewn partneriaeth â Thirweddau Cenedlaethol Gogledd Cymru. Os bydd yn llwyddiannus bydd y prosiect yn gweithio ar fap arloesol Rhwydwaith Ecolegol Tywyll. Dyma fydd y tro cyntaf i unrhyw waith maptio ecolegol o awyr dywyll gael ei wneud yn y DU ac Ewrop. Mae'r prosiect wedi dod ag ysog eang o academyddion, arbenigwyr a grwpiau cymunedol ynghyd i ddatblygu'r cais. Os bydd yn llwyddiannus, dylai Eryri ennill swyddog prosiect ychwanegol.**<br><br>➢ **Gofynnwyd i'r prosiect weithio ochr yn ochr â CNC o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Glynllifon. Mae'r ACA yn ymestyn dros ardal eang, o Goleg Glynllifon i rai milltiroedd o fewn fin y Parc Cenedlaethol rhwng Nantlle a Rhyd Ddu. Mae'r ardal wedi'i dynodi'n safle o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd presenoldeb Ystlumod Pedol Lleiaf. Mae'r boblogaeth yn lleihau ac mae llygredd golau yn un o'r pwysau sy'n achosi i'w niferoedd leihau. Cwblhawyd ymweliadau safle ac arolygon ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r prosiect bellach yn aros am adroddiadau i wneud argymhellion ac efalli edrych i sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith. Mae lle i brosiect ar raddfa fawr yn cwmpaus cymunedau Penygroes, Talysarn a Nantlle a Llanllyfni ond byddai hyn yn dibynnu ar sicrhau cefnogaeth a chyllid. Mae'r gwaith hwn yn parhau.**<br><br>➢ **Cynhaliwyd Wythnos Awyr Dywyll Cymru 2024 Chwefror 9-18 ac unwaith eto mae'n gydweithrediad rhwng pob un o'r 8 tirwedd dynodedig. Yr oedd pob digwyddiad wedi'i archebu'n llawn, 3 achlysur yn Eryri.**<br><br>➢ **Gwahoddwyd y swyddog prosiect i Dŷ'r Cyffredin ym mis Mehefin i drafod llygredd golau ac arddangos llwyddiannau Eryri.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI, 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **GALLUOGI ADNODDAU NATURIOL A LLES LLYWODRAETH CYMRU (GANLl / ENRaW)**<br><br>**a**<br><br>**PARTNERIAETH NATUR LEOL ERYRI (PNLE)**<br><br>**Mae'r ddau brosiect wedi'u cyfuno** | Ebrill 2023 – Mawrth 2025<br><br>Cydweithrediad rhwng APCE ac amryw o gyrff anllywodraethol amgylcheddol<br><br>Mae gan y prosiect ddyraniad o £300,000 cyfalaf a £72,000 Refeniw wedi ei sicrhau ar gyfer 2023/24 gyda'r un swm wedi ei ddyranu ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 | ❖ **Newid staff:** Yn dilyn cyfnod o drosiant uchel yn swydd y Swyddog Bioamrywiaeth, rydym wedi cyrraedd sefydlogrwydd gydag 1 Swyddog Prosiect a 2 Swyddog Bioamrywiaeth (technegol/ymgysylltu) wedi eu penodi<br><br>❖ **Cynhwysedd:** Oherwydd derbyn yr arian yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, mae gallu partneriaid i gyflawni prosiectau ar amser yn bryder. Rydym wedi contractio llwyth gwaith realistig, gan liniaru'r risg.<br><br>❖ **Oedi:** Mae tywydd gwael yn broblemus gan ei fod yn achosi oedi yn amserlenni gwaith contractwyr, gan effeithio ar amserlen y prosiect. | Mae rhaglen Lleoedd Lleol i Natur yn cefnogi'r blaeoriaethau strategol allweddol a nodir mewn deddfwriaeth ac yn helpu i gyflawni ymrwymiadau Bioamrywiaeth ac adferiad gwyrdd Llywodraeth Cymru. Nod y cynllun yw adfer a gwella asedau cyfalaf naturiol a darparu byd natur ar garreg eich drws lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Mae'r PNLE wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect ledled Cymru i greu dull cydweithredol o ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth yn sgil yr argyfwng bioamrywiaeth. | **Mae'r rhaglen Lleoedd Lleol i Natur, sydd wedi olynu cyllid ENRaW, yn brosiect 2 flynedd a ariennir gyda chyfanswm dyraniad cyfalaf o £600k. Mae Partneriaeth Natur Leol Eryri yn cyflawni'r prosiect "Eryri Gwyrdd", gyda'r nod o gynyddu mynediad i fyd natur gyda sawl partner, trwy sefydlu gerddi cymunedol, plannu perllannau a choed brodorol, clirio rhywogaethau ymledol a dolydd blodau gwyllt, tra'n gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd. Mae pob prosiect yn canolbwyntio ar ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol trwy blannu coed, gwneud gwestai chwilod a diwrnodau addysg Cregyn Gleision Perlog Dŵr Croyw er enghraifft.**<br><br>**Dyma rai o'n partneriaiad prosiect:**<br>❖ **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**<br>❖ **Ymddiriedolaeth Nature Gogledd Cymru**<br>❖ **Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru**<br>❖ **Y Dref Werdd**<br>❖ **Cynghorau Cymuned**<br>❖ **Timau Wardeiniaid APCE**<br><br>**Yn dilyn recriwtio 2 Swyddog Bioamrywiaeth yn llwyddiannus, mae gwaith wedi dechrau ar ysgrifennu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri. Mae mwy o ffocws ar ymgysylltu wedi'i gyflwyno i hyrwyddo gwaith yr Adran, datblygu Partneriaeth Natur Lleol Eryri, a meithrin perthynas â chymunedau ar gyfer gwella bioamrwyiaeth.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI, 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **MENTER GWELLA TIRWEDD Y GRID CENEDLAETHOL** | Chwefror 2023<br>⇩<br><br>£200K | Dyddiad cychwyn wedi'i ohirio. Arweiniodd yr oedi at golli un tymor rheoli llystyfiant. Gallai hyn roi pwysau ar dorri digon o ardaloedd o fewn yr amser penodedig.<br>I liniaru'r risg – Mae cyfran dda o'r gwaith bellach o dan gontractau ac yn mynd rhagddo'n dda.<br><br>Mae'r dyfynbrisiau rydym yn eu derbyn am waith ar y prosiect hwn yn sylweddol uwch na'r hyn a gyllidebwyd.<br>I liniaru'r risg - mae cais wedi ei wneud am godiad ariannol.<br><br>Agwedd arwyddocaol o'r prosiect hwn yw adeiladu pont dros Anafon.<br>Mae'r agwedd hon yn annhebygol o ddigwydd gan fod cyngor cymuned wedi ei wrthwynebu. Mae opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan arweinwyr prosiect.<br><br>Mae risg y gallai buddsoddi i reoli eithin a rhedyn fod am ddim os nad oes newid i'r pori ar y safle. Os bydd y pori yn parhau fel y mae, mae perygl y bydd eithin yn dychwelyd ymhen 10-15 mlynedd.<br>I liniarau – Trafodaethau gyda chymdeithas pori Aber a ChNC er mwyn denu Merlod y Carneddau i bori dros y gaeaf ar y safle. | 15134m gwelliannau mynediad<br><br>1 pont newydd<br><br>Gwaredu 214ha o redyn ac eithin<br><br>1070 atgyweirio terfyn | **Mae gwaith clirio llystyfiant yn mynd yn ei flaen. Mae pob safle yn y prosiect bellach yn cael ei reoli. Mae £45K o arian ychwanegol wedi'i gymeradwyo ar gyfer y prosiect oherwydd gorwariant ar dorri eithin â llaw o amgylch Henebion Cofrestredig.**<br><br>**Mae gaith llysyfiant wedi'i rannu rhwng PC Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda chyfathrebu rheolaidd ar gyfer diweddariadau.**<br><br>**Ni fydd y bont wreiddiol a fwriadwyd yn Anafon yn cael ei hadeiladu yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cyngor Cymuned. Mae opsiynau ar gyfer pont ym Mhwll Du, Afon Porth Llwyd, um cael eu harchwilio. Mae adroddiad cysyniad yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd gan gangen ymgynghorol Cyngor Conwy. Bydd yr adroddiad yn amlinellu costau ac ymarferoldeb. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2024.**<br><br>**Mae gwaith Gwelliannau Mynediad yn mynd yn unol â'r cynllun. Y gwaith wedi'i rannu rhwng PC Eryri, yr YG a ChNC gydag adroddiadau cynnydd yn cael eu paratoi'n rheolaidd.**<br><br>**Mae gwaith atgyweirio ffiniau wedi'i gontractio, sywddogion yn aros am gadarnhad fod y gwaith wedi'i gwblhau.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD EBRILL – MEDI, 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **MENTER GWELLA TIRWEDD Y GRID CENEDLAETHOL**<br><br>**"MIND THE GAP"** | 2023 – 2026<br><br>£200k o gyfraniad gan MGT y Grid Cenedlaethol, mae'r holl gostau eraill (lleiafswm 25%) mewn nwyddau neu arian parod gan bartneriaid.<br><br>Ym mis Ebrill 2023, gwnaethom gais llwyddiannus gan dderbyn taliad ychwanegol o £41,509 i gyfrannu at allbynnau disgwyledig y dyfarniad gwreiddiol | **Dyddiad cychwyn wedi ei oedi:**<br><br>**Covid 19** – gweler prosiectau MGT uchod<br><br>**Colli Swyddog Prosiect:** gwaith wedi'i wasgaru ymhlith partneriaid. Hyblygrwydd o fewn yr Adran CCA i gwmpasu SP<br><br>**Oedi gyda chymeradwyaeth OFGEM sy'n golygu y gall rhanddeiliaid eraill geisio ffynonellau ariannu eraill** – cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid i gadw'r rhai sydd â diddordeb yn frwdfrydig | 19.62 ha o reoli Rhododendron<br><br>310m o adfer llwyni<br><br>1,068m² o waith adfer waliau sych<br><br>1 adfer / ail adeilad<br><br>2,090 m o waith ffensio i reoli cynefinoedd<br><br>6,800 o goed llydanddail wedi'u plannu<br>160 o goed o fath parcdir wedi'u plannu | **Mae gwaith wedi'i gontractio allan i gartneriaid y prosiect. Staf y Wern yn brysur yn cwblhau gwaith Rhododendron gyda chynnydd cadarnhaol wedi ei gyflawni. Mae ymweliad monitro canolradd wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2024.**<br><br>**Mae oediad ar yr agwedd adnewyddu adeiladau o'r gwaith gyda Coed Cadw, y partner arweiniol, yn ei chael yn anodd penodi contractwr. Mae terfyn amser tendro wedi'i symud ymlaen i ganiatad mwy o amser i ddarpar gontractwyr. Mae Rheolwr Ystad Coed Cadw yn hyderus y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn amserlen y prosiect.**<br><br>**Mae gwaith plannu ffiniau a choed yn mynd yn ôl y bwriad.** |
| **Menter Gwella Tirwedd y Grid Genedlaethol**<br><br>**CYSYLLTEDD Y CARNEDDAU** | £200k<br><br>Diweddariad:<br>Taliad ychwanegol £43,320 wedi ei dderbyn | Coed Gorddinog, Llanfairfechan – Tirfeiddianwr wedi datgan fod dim diddordeb ganddo i reoli'r Rhododendron sydd ganddo yn Gorddinog hall. Hwn yn rhan pwysig iawn i gyrraedd y targed yma felly risg o ddim llwyddo – trafodaethau yn parhau gyda'r tirfeiddianwr ac archwilion i ddarganfod safleoedd newydd i gymeryd lle.<br><br>Y gwaith yn costio mwy na chafodd i rhagweld yn y cais felly potensial o or-wario yma. | Adferiad Gwrychoedd 9,000m<br><br>5,927 Plannu Coed (Coridorau Ffridd a Glan y Môr)<br><br>Creu Coetir 2ha<br><br>Gwaredu Rhododendron 26ha<br><br>Creu Dolydd 3.5ha | **Mae'r prosiect hwn yn ei fisoedd olaf. Disgwylir i'r holl waith adfer gwrychoedd gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024. 8543m allan 958m wedi'i gwblhau.**<br><br>**Plannu ffridd a glan-nant wedi'i gwblhau.**<br><br>**Creu coetir wedi'i gwblhau.**<br><br>**Mae gwaith dileu rhododendron wedi ei symud i Goed Cymerau. Mae'r tendr wedi'i gwblhau ac mae contractwyr ar fin cychwyn yn fuan.**<br><br>**Gwaith adfer dolydd wedi'i gwblhau. Safle 2ha ychwaengol wedi'i adfer yn Fferm Merchlyn yr yr Haf gan fynd â ni dros y targed gwreiddiol.**<br><br>**Llwyddwyd ar bob targed.** |

| PROSIECT | DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD<br>CYFANSWM CYLLID | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle)<br>Oni nodir yn wahanol isod | CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD EBRILL – MEDI, 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **RHAGLEN WEITHREDU GENEDLAETHOL AR FAWNDIROEDD** | 2020 – 2025<br>Arian grant dros sawl mlynedd drwy Gyllid wedi'i Ddyranu'n Strategol (SAF):<br><br>2020-21: £383,793<br>2021-22: £253,835<br>2022-23: £301,648<br>2023-25: Hyd at £250,000 pob blwyddyn<br><br>**Cyfanswm = £1,001,274** | Amharodrwydd tirfeddianwyr i adfer mawn oherwydd ansicrwydd ynghylch FFCS newydd.<br><br>Cyfyngiadau cynyddol gan CNC ar ein harferion gwaith ee atal ail-wlychu taliadau, atal waith ar rai safleoedd, newidiadau anniswgyl i'r broses gymeradwyo yn achosi oedi sylweddol.<br><br>Oedi taliadau oherwydd gofynion data ychwanegol na chofodd eu penny ar y dechrau. | Dim targedau penodol, ond yn anelu at adnabod, arolygu ac adfer mawn o fewn y PC (gyda rhai eithriadau tu allan i'r PC yn y blynyddoed cynharach) | **Gwaith adfer dros 6000ha o dir newydd:**<br>**2020-21: 724ha a 12 safle gwaith Newydd, 218ha a 4 safle wedi eu hail- ymweld.**<br>**2021-22: 1611ha ac 17 o safleoedd gwaith Newydd, 225ha ac 8 safle wedi'u hailymweld.**<br>**2022-23: 3146ha a 23 o safleoedd gwaith Newydd, 704ha ac 8 safle wedi'u hailymweld.**<br>**2023-24: 300ha a 3 safle o waith Newydd, 2467ha ac 11 safle wedi'u hailymweld.**<br>**2024-25: gwaith newydd ddechrau.**<br><br>**Tirfesur ac arolygon tir yn cwmpaus cyfanswm o 2148ha.**<br>**2021-22: 335ha dros 5 safle**<br>**2022-23: 592ha dros 9 safle**<br>**2023-24: 209ha dros 2 safle**<br>**2024-25: 1013ha dros 8 safle** |
| **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd**<br><br>**YMYLON ERYRI** | 2022 – 2025<br><br>Cyllid grant drwy Raglen Weithredu Cenedlaethol Mawndiroedd (NPAP) Datblygiad (Dat.) a Gweithredu (Gweith.)<br>2022-23: £29,927 (Dat.)<br>2023-24: £30,000 (Dat.)<br>2023-25: Up to £250,000 (Gweith.)<br><br>**Cyfanswm = £309,927**<br><br>*2024-25: £30,000 (Gweith.) – yn aros cadarnhad o lwyddiant cais am grant* | Nature tymor byr y grantiau. Gorfod gwneud cais bob blwyddyn – risg o beidio â bod yn llwyddiannus a cholli staff.<br><br>Ansicr o'r rhaglen ar ôl 2025.<br><br>Anhawster gweithio gyda thirfeddianwyr y tu allani'r PC. Unsure of programme after 2025.<br><br>Amharodrwydd tirfeddianwyr i adfer mawn gydag ansicrwydd ynghylch yr FfCS newydd. | Dim targedau penodol, anelu at adnabod, arolygu ac adfer mawr tu allan i ffiniau'r PC | **Gwirio tir a thirfesur yn cwmpasu cyfanswm o 2773ha (hyd yn hyn):**<br>**2022-23: 664ha dros 6 safle**<br>**2023-24: 1447ha dros 15 safle**<br>**2024-25: 682ha dros 6 safle (hyd yn hyn)**<br><br>**Dechreuodd gwaith adfer yn ystod gaeaf 2023-24 gyda gwaith ar Y Gylchedd. Bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024 ynghyd â sawl safle arall yn ardal Hiraethog ac un safle ym mynyddoedd y Berwyn.** |

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 27 Tachwedd 2024 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2023-24** |
| **ADRODDIAD GAN** | Gareth Hughes (Swyddog Iechyd a Diogelwch. |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ynghylch rheoli iechyd a diogelwch o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. |

## CEFNDIR

Yn dilyn adolygiad o reoli Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod yn ystod mis Chwefror 2023, ac i gydymffurfio â Rheoliad 7 yr System Rheoli Iechyd a Diogelwch (SrhID), penodwyd Swyddog Iechyd a Diogelwch mewnol ym mis Ionawr 2024.

Mae penodiad y Swyddog Iechyd a Diogelwch wedi nodi sawl bwlch yn yr SRhID. Yn benodol, roedd diffyg ym mhroses adolygu polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg ac asesiadau anghenion hyfforddi. Heblaw hynny, nid oedd unrhyw archwiliadau mewnol nac archwiliadau a wnaed ar draws yr Awdurdod.

## ARGYMHELLIAD

I nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Iechyd a Diogelwch Adroddiad Blynyddol 2023-24

**Cynnwys**

**Pwrpas**........................................................................................................ 3
**Crynodeb**........................................................................................................ 3
**Newidiadau i'r Sefydliad Iechyd a Diogelwch**........................................................ 3
**Grŵp Iechyd a Diogelwch**........................................................................... 4
**System Rheoli Iechyd a Diogelwch (SRhID)** ........................................................ 4
**Hyfforddiant**.................................................................................................. 4-5
**Data Digwyddiad**........................................................................................ 5-6
**Data i ymwelwyr**.............................................................................................. 6
**Absenoldebau ac iechyd**.................................................................................. 6
**Data arwyddocaol**.......................................................................................... 7
**Offeryn Dangosydd Straen (SIT)** ............................................................................ 7

**Diben**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ynghylch rheoli iechyd a diogelwch o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (y cyfeirir ato wedi hyn fel yr Awdurdod).

## Crynodeb

1. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch yw'r cyfarfodydd diogelwch penodedig, sydd wedi ail ymgynnull yn dilyn penodi'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ym mis Ionawr 2024.

2. Mae damweiniau, Digwyddiadau a damweiniau a fu bron a digwydd yn cael eu hadolygu yn y cyfarfodydd diogelwch, yn ogystal â risgiau diogelwch, gyda gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws yr adrannau lle bo hynny'n berthnasol.

3. Mae cyflwyno polisïau diogelwch newydd ac adolygu'r polisïau presennol wedi dechrau, ac mae templed asesu risg safonol wedi'i ddatblygu ar gyfer yr Awdurdod.

4. Mae lles wedi bod yn ffocws allweddol i'r sefydliad, gyda phwyslais ar iechyd corfforol a lles meddyliol. Mae'r tîm Adnoddau Dynol wedi ymgynghori â darparwyr Iechyd Galwedigaethol i ailsefydlu Gwyliadwriaeth Iechyd gweithwyr, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar weithwyr sy'n agored i ddirgryniadau a sŵn yn ystod eu cyflogaeth / gwaith gyda'r Awdurdod, gyda chynllun o gyflwyno gwyliadwriaeth iechyd gyffredinol ar gyfer holl weithwyr yr Awdurdod mewn pryd.

## Newidiadau Sefydliadol Iechyd a Diogelwch

Yn dilyn adolygiad o reoli Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod yn ystod mis Chwefror 2023, ac i gydymffurfio â Rheoliad 7 yr SRhID, gwnaed penodiad Swyddog Iechyd a Diogelwch mewnol ym mis Ionawr 2024.

## Grŵp Iechyd a Diogelwch

Mae cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch wedi ymgynnull yn dilyn penodi'r Swyddog Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yn ystod y cyfarfod cyntaf nad oedd presenoldeb yn gwbl gynrychioliadol o'r Awdurdod, gan nad oedd gan bob adran aelod o staff yn bresennol. O ganlyniad, anfonwyd gwahoddiad i'r cyfarfod yn olynol at bob pennaeth adran neu ei anfon ymlaen at rywun yn eu hadran os na allant fod yn bresennol.

Prif bwrpas y Grŵp yw trafod materion iechyd a diogelwch, sicrhau rhanddeiliaid bod iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol a chodi achosion digwyddiadau arwyddocaol er mwyn eu trafod.

**System Rheoli Iechyd a Diogelwch (SRhID)**

Mae penodiad y Swyddog Iechyd a Diogelwch wedi nodi sawl bwlch yn yr SRhID. Yn benodol, roedd diffyg proses adolygu polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg ac asesiadau anghenion hyfforddi. At hynny, nid oes unrhyw archwiliadau mewnol nac archwiliadau a wneir ar draws yr Awdurdod.

**Hyfforddiant**

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mynychodd **43** aelod o staff gyrsiau hyfforddi mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch.

| Cwrs Hyfforddi | Mynychwyr |
|---|---|
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith | 5 |
| Cymorth Cyntaf Awyr Agored | 1 |
| Cymorth Cyntaf Awyr Agored + F | 24 |
| Cwch pŵer | 2 |
| Lefel 2 Dyfarniad Diogelwch Bwyd ar gyfer Arlwyo | 4 |
| IOSH Rheoli yn Ddiogel | 7 |

Yn ogystal â hyn, mae staff yn defnyddio platfform e-ddysgu ELMS ar gyfer y Parciau Cenedlaethol, sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Mae'r cyrsiau hyn yn rhyngweithiol a gellir eu cwblhau er hwylustod y dysgwr, mae hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i staff sy'n gweithio yn y canolfannau croeso / twristiaeth, y mae'n rhaid iddynt aros ar agor drwy gydol y tymor brig, ac o ganlyniad mae'n gwneud trefnu hyfforddiant i staff yn her.

Ar gyfer y cyfnod o 12 mis rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, mae 160 o gyrsiau ELMS wedi'u cwblhau gan staff yr Awdurdod.

Rydym yn deall cyfyngiadau dysgu ar-lein e.e. risg o gamddehongli, diffyg ymgysylltiad ac eglurhad o gysyniadau cymhleth gan hyfforddwr cymwys ac ati. Dyma pam rydym yn ystyried y math hwn o hyfforddiant yn gyflenwol yn hytrach na hyfforddiant mwy ffurfiol.

Y nod yw cynnig cyrsiau hyfforddi ar ddull sy'n seiliedig ar risg a thrwy ddadansoddi tueddiadau digwyddiadau presennol a'r gorffennol. Yn ogystal â hyn, mae adolygiad o ddisgrifiadau swyddi staff APCE wedi dechrau yn 2024, bydd hyn yn cael ei ategu gan weithredu fformat safonol newydd ar gyfer asesiadau risg APCE a fydd yn arwain at adolygiad o'r holl asesiadau anghenion hyfforddi staff.

Mae hyn yn rhan o'r strategaeth newydd yn dilyn penodi'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ac mae'n dilyn Cynllun Arfer a Chanllawiau Gorau (HSG65) yr HSE, Gwneud, Gwirio, Gweithredu.

**Data Digwyddiadau**

Yn 2023-24, adroddwyd 18 digwyddiad, ac ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy i RIDDOR.

Mae'r tablau isod yn dadansoddi'r wybodaeth yn unol â hynny.

| | |
|---|---|
| Adeiladu a Seilwaith | 5 |
| Cerbydau a Peiriannau | 2 |
| Anaf Personol | 7 |
| Arall | 4 |
| CYFANSWM | 18 |

Nodyn: Mae digwyddiadau Adeiladu a Seilwaith yn cynnwys galwadau allan ac actifadu larwm diogelwch. Mae'r categori 'arall' yn Ddamweiniau A Fu Bron a Digwydd, lle gallai digwyddiad fod wedi arwain at anaf, ond ni wnaeth.

| | |
|---|---|
| Aelod o staff | 7 |
| Gwirfoddolwr | 0 |
| Aelod o'r cyhoedd | 4 |
| Arall | 7 |
| CYFANSWM | 18 |

Yn 2022, adroddodd yr Awdurdod 10 damwain a arweiniodd at anaf personol, gyda 2 ohonynt yn adroddadwy i RIDDOR. Ar gyfer gweithwyr yr Awdurdod, ffactorau dynol a diffyg cynnal a chadw peiriannau oedd y prif achosion, gyda Thrin â Llaw a Syrthio o Uchder yn dod i'r amlwg fel y prif risgiau.

**Data ymwelwyr**

Mae'r tabl isod yn nodi'n fras y nifer o ymwelwyr a fynychodd dair Canolfan Groeso y Parc Cenedlaethol a'r Ysgwrn yn 2023-24. Yn ystod y cyfnod hwn, adroddwyd am 1

digwyddiad a fu bron â digwydd, ac ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiad anafiadau personol ar gyfer y safleoedd hyn.

| | |
|---|---|
| CC Aberdyfi | 29,511 |
| CC Beddgelert | 36,299 |
| CC Betws y Coed | 44,436 |
| Yr Ysgwrn | 8,000 |

**Absenoldebau ac Iechyd**

Mae'r data canlynol ar gyfer cyfnodau adrodd 1 Ionawr – 31 Rhagfyr. Sef y ddwy flynedd fwyaf diweddar ar gyfer dibenion cymharu.

Isod, cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfer 2022 a 2023.

| 2022 | 2023 |
|---|---|
| **1591** | **1838** |

Gall cronfa ddata'r Awdurdod (My Options / Fy Opsiynau) gynhyrchu adroddiad sylfaenol ar gyfer absenoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r system yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd i llawn allu oherwydd nid yw'r rheswm dros absenoldebau yn cael ei ddarparu na'i gofnodi.

Mae'r tabl isod yn adroddiad diweddar a gynhyrchwyd gan yr adran Adnoddau Dynol i ddangos cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd iechyd meddwl; straen yn y gwaith, straen, pryder, hwyliau isel ac iselder.

Unwaith eto, dyma ddwy flynedd fwyaf diweddar i'w cymharu.

| 2022 | 2023 |
|---|---|
| **204** | **716** |

**Data sylweddol**

Yn 2023, straen, pryder, iselder ysbryd yw prif achos absenoldeb o'r gweithle, gan gyfrif am 39% o gyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd, o'i gymharu â 13% ar gyfer 2022.

Mae'r cynnydd hwn mewn absenoldeb rhwng 2022/23 wedi ysgogi'r Awdurdod i gymryd y camau canlynol;

- Cynnig y cyfle i'r rstaff sy'n absennol o'r gwaith oherwydd straen y cyfle i gael eu hatgyfeirio at Iechyd Galwedigaethol.

- Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cefnogi rheolwyr wrth ddatblygu 'Cynlluniau Gweithredu Llesiant' (CGLl) ar gyfer staff sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb oherwydd straen.
- Rydym wedi dechrau gweithredu asesiadau risg straen ar draws yr Awdurdod.
- Optimeiddio'r defnydd o 'My Opions /Fy Opsiynau' i sefydlu rhesymau manwl gywir dros absenoldeb yn y gweithle, bydd hyn yn helpu i nodi tueddiadau, darparu data ar gyfer dadansoddiad pellach a chymhariaeth dros amser.

**Offeryn Dangosydd Straen (OFS)**

Ymhellach i'r uchod, er mwyn deall yn well achosion posibl straen o fewn yr Awdurdod, yn 2024 rydym yn bwriadu cyflwyno'r arolwg OFS gyda staff APCE.

Mae'r Offeryn Dangosydd Straen yn arolwg ar-lein a gynlluniwyd i gasglu data yn ddienw gan weithwyr, y gellir ei ddefnyddio yn elfen asesu risg Dull Gweithredu Safonau Rheoli Bwrdd Gweithredol Iechyd a Diogelwch (yr HSE).

Bydd yr arolwg hwn a grëwyd gan TSO (The Stationery Office) ar ran Fwrdd Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn sgorio perfformiad yr Awdurdod ar agweddau gweithle sy'n gysylltiedig â straen.

Nid yn unig y mae hon yn safon gydnabyddedig ar gyfer y diwydiant diogelwch ar gyfer arolwg, ond mae wedi dod ar gael yn Gymraeg yn ddiweddar.

Trwy gael gafael ar y wybodaeth hon a'i deall, gallwn nodi meysydd i'w gwella er mwyn helpu i atal a rheoli straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 27 Tachwedd 2024 |
| **TEITL** | **Cynllun Archwilio Manwl 2023 a 2024** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio |
| **PWRPAS** | I nodi cynllun yr archwilydd allanol ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022-23 a rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024 |

**CEFNDIR**

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl yn nodi cyfrifoldebau statudol yr archwilydd allanol ac i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae’r archwilwyr yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2023.

Mae hefyd yn nodi y ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion y tîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig y tîm archwilio.

Cafodd archwiliad cyfrifon 2021-22 ei oedi'n sylweddol oherwydd materion yn ymwneud â phrisio eiddo, peiriannau ac offer sydd yn ei dro wedi gohirio cyhoeddi ein cynllun ar gyfer 2023. Felly, mae'r cynllun hwn yn nodi y cynllun ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022-23 a rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024.

**ARGYMHELLIAD**

**Derbyn yr adroddiad**

**PAPURAU CEFNDIROL**

**Dim**

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Archwilio Manwl 2023 a 2024

Blwyddyn archwilio: 2023 a 2024

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4579A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw’r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân a’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo’n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo’n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 8 |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol | 9 |
| Meysydd eraill y pwysleisir arnynt | 10 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 12 |
| Gwaith archwilio perfformiad arffaethedig | 13 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 14 |
| Ffi a’r tîm archwilio | 15 |
| Ansawdd archwilio | 17 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – newidiadau ac effaith allweddol Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 | 18 |

Rwyf bellach wedi cwblhau fy ngwaith cynllunio i raddau helaeth.

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2023.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio .

Cafodd archwiliad cyfrifon 2020-21 ei oedi'n sylweddol oherwydd materion yn ymwneud â phrisio eiddo, peiriannau ac offer sydd yn ei dro wedi gohirio cyhoeddi ein cynllun ar gyfer 2023. Felly, mae'r cynllun hwn yn nodi ein cynllun ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022-23 a rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

## Fy nghyfrifoldebau archwilio

Rwy'n gwneud gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- rwy'n archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.
- mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- mae angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

## Archwilio datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno tystysgrif ac adrodd ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac asesiad ynghylch a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'ch datganiadau ariannol a'm gwybodaeth am yr Awdurdod.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn

# Gwaith archwilio perfformiad

Rwy'n cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau[1] fel Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad leol yn parhau i gael ei chyflwyno drwy gyfuniad o brosiectau lleol pwrpasol a phrosiectau thematig sy'n archwilio risgiau sy'n gyffredin i bob Awdurdod.

Cynhelir y rhan fwyaf o'm gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf. Sefydliad anllywodraethol yw ef sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

[1] Pan fyddwn yn ymgymryd â gwaith archwilio o dan ein pwerau a'n dyletswyddau statudol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth gan gyrff cyhoeddus sy'n cynnwys rhywfaint o ddata personol. Mae ein hysbysiad prosesu teg archwilio cyffredinol yn esbonio'r hyn a wnawn gyda data personol, a sut y gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

## Perthnasedd £246k

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau materol, hynny yw, y rhai a allai achosi I'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain.

Cyfrifir Perthnasedd gan ddefnyddio:

- Gwariant gros 2022-23 o £12,286k
- Canran Perthnasedd o 2%

Rwy'n adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu unrhyw gamddatganiadau sy'n uwch na lefel ddibwys (wedi'u gosod ar 5% o berthnasedd).

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Mae rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi gosod lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth £1,000
- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £10,000 (Unigolion)

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad materol y mae'r asesiad risg gynhenid yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i ni ganolbwyntio mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: Risgiau datganiad ariannol sylweddol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
| --- | --- |
| Mae’r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o’r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32–33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso’r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol; |
| Mae perygl o gamddatganiad materol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac felly mae'n cael ei ystyried fel risg sylweddol [ISA 240.27]. | Nid yw'r tîm archwilio wedi dod â phob maes o'r asesiad risg i ben eto ac felly nid ydynt eto wedi gallu gwrthbrofi'r risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn cydnabyddiaeth refeniw. |
| Mae perygl o gamddatganiad materol oherwydd twyll mewn gwariant ac felly mae'n cael ei ystyried fel risg sylweddol [PN 10]. | Nid yw'r tîm archwilio wedi dod â phob maes o'r asesiad risg i ben eto ac felly nid ydynt eto wedi gallu gwrthbrofi’r risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn gwariant. |

Nodais risgiau eraill a nodwyd o gamddatganiad materol sydd, er nad yw'n benderfynol o fod yn risgiau sylweddol fel uchod, hoffwn dynnu eich sylw atynt.

**Arddangosyn 2: meysydd ffocws eraill**

| Perygl archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Datganiadau Ariannol Drafft**<br>Nid oedd y datganiadau ariannol drafft a gyflwynwyd ar gyfer archwiliad yn 2021-22 o'r ansawdd yr oeddem yn ei ddisgwyl.<br><br>Nodwyd ein gwaith archwilio materion a gwallau sylweddol a arweiniodd at newidiadau i'r cyfrifon neu'r angen ar gyfer gwaith archwilio ychwanegol.<br><br>Cafodd hyn effaith ar gyflawni'r archwiliad yn amserol. | Mae'r tîm archwilio wedi bod yn gweithio gyda'r tîm cyllid i ddeall y trefniadau a'r prosesau a sefydlwyd i wella ansawdd y datganiadau ariannol drafft.<br><br>Bydd y tîm archwilio yn monitro cynllun cau y tim cyllid ac yn adolygu'r datganiadau ariannol drafft a'r papurau gwaith ar ôl eu derbyn i nodi a oes unrhyw faterion a allai effeithio ar amserlen yr archwiliad. |
| **Prisio Tir ac Adeiladau**<br>Cafodd tir ac adeiladau'r awdurdod prisiad llawn yn 2021-22 gan briswyr allanol. Yn ystod archwiliad 2021-22, daeth y tîm archwilio ar draws nifer o faterion gyda'r broses ailbrisio.<br><br>Er na fydd ailbrisiad llawn 2022-23, o ystyried hinsawdd yr amgylchedd economaidd, mae risg y gallai gwerth cario asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth ac efallai y bydd angen rhagor o waith archwilio. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• adolygu gwerth cario asedau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwerth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2023;<br>• adolygu gwybodaeth a ddarperir i'r prisiwr i asesu ar gyfer cyflawnrwydd;<br>• gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;<br>• profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, y data a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, ac mae'r ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a<br>• Profi'r y cymod rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau. |
| **Prisio rhwymedigaeth net cronfa bensiwn**<br>Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari; |

| Perygl archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn ddarostyngedig i gryn dipyn o ansicrwydd gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y tybiaethau a ddefnyddir i'w gyfrifo.<br>Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth. Ar 31 Mawrth, er enghraifft, roedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd yn warged, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.<br><br>Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol.<br>o bosibl yn effeithio ar brisiad<br>Y rhwymedigaeth net. | • asesu cymhwystra, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif yr rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd o'r actiwari;<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghori (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; a<br>• asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith berthnasol ar y rhwymedigaeth net ac, os felly, cadarnhewch fod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.<br><br>Gan fod y gronfa bensiwn mewn sefyllfa gwarged net eleni, bydd y tîm archwilio yn:<br>• deall proses yr actiwari ar gyfer cyfrifo'r gwarged y gellir ei adnabod ar 31 Mawrth 2023; ac<br>• ystyried a oes modd adnabod y gwarged o dan IFRIC 14 |

Nid yw'r tîm archwilio wedi dod â phob maes o'r asesiad risg i ben eto. Os ydy unrhyw risgiau ariannol sylweddol yn codi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn byddwn yn diweddaru'r swyddog S151 a'r Awdurdod drwy ei Gadeirydd ac ailgyhoeddi fy Cyllun Archwilio Manwl os oes angen.

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflwyno fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflwyno allbynnau wedi'u cynllunio**

| Allbwn wedi'i gynllunio | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Manwl 2023 | Medi i Hydref 2024 | Tachwedd 2024 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol:<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Tachwedd i Ragfyr 2024 | Ionawr 2024 |

Nodaiaf isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflwyno allbynnau arfaethedig**

| Gwaith archwilio perfformiad 2023-24 | | |
|---|---|---|
| **Adolygiad thematig – sicrhau mynediad i barciau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol** | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru:<br>• yn sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymweld â'r ardaloedd hyn a'u mwynhau;<br>• yn cynyddu eu cynnig i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; a<br>• yn cyflawni eu cydraddoldeb statudol a'u cyfrifoldebau economaidd-gymdeithasol. | Awst – Rhagfyr 2024 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2024-25 | | |
| **Archwiliad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG)** | Archwiliad o'r graddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod neu adolygu ei amcanion llesiant | Awst – Rhagfyr 2024 |
| **Asesiad sicrwydd a risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Awdurdod gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ionawr – Mehefin 2025 |

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Archwiliad Adran 30 o ddogfennau a chwestiynau wrth eu harchwilio; a
- Adran 31 Yr hawl i wrthwynebu wrth archwilio.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn derbyn cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ym mis Ionawr 2023 cyhoeddais y Cynllun Ffïoedd ar gyfer y flwyddyn 2023-24 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2023-24 wedi cynyddu 4.8% ar gyfer pwysau chwyddiant. Yn ogystal, mae gan fy ffi'r archwiliad ariannol gynnydd pellach o 10.2% ar gyfer effaith y safon archwilio ddiwygiedig ISA 315 ar fy ymagwedd archwilio ariannol. Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a'r hyn y mae'n ei olygu i'r archwiliad a wnaf yn **Atodiad 1**.

Rwy'n amcangyfrif y bydd cyfanswm eich ffi archwilio yn £65,121

**Arddangosyn 5: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer gwaith 2023, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[2] | Ffioedd gwirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon | £46,956[3] | £54,000[4] |
| Gwaith archwilio perfformiad | £18,165[5] | £17,238[6] |
| Cyfanswm ffi | £65,121 | £71,238 |

Y ffi arfaethedig ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad 2024-25 y manylir arno yn **Arddangosyn 4** yw £19,328.

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni wnaf unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

[2] Nodiadau: Mae'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn gyfyngedig i TAW, nad yw'n cael ei godi arnoch chi.

[3] Amcangyfrif ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23

[4] Ffi ar gyfer archwilio cyfrifon 2021-22

[5] Amcangyfrif ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24 y manylir arno yn **Arddangosyn 4**

[6] Ffi ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

Mae prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn cael eu crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 320663 | matthew.edwards@archwilio.cymru |
| Gary Emery | Cyfarwyddwr Ymgysylltu (Archwilio Perfformiad) | 02920 320590 | gary.emery@archwilio.cymru |
| Rachel Freitag | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829359 | rachel.freitag@archwilio.cymru |
| Tim Buckle | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320653 | timothy.buckle@archwilio.cymru |
| Daniel Price | Uwch Archwilydd (Archwilio Ariannol) | 02920 320544 | daniel.price@archwilio.cymru |
| Charles Rigby | Archwilydd Arweiniol (Archwilio Perfformiad) | 02920 320695 | charles.rigby@archwilio.cymru |

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o'r tîm yn annibynnol ar awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'ch swyddogion.

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan QAD*, ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023.



## Ein Pobl

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



## Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



## Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

## Y newidiadau allweddol i Safon Rhyngwladol ar Archwilio 315 a'r effaith bosibl ar eich sefydliad

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth | Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:<br>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut y mae'n integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);<br>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro'r system rheoli mewnol;<br>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a'u hadrodd. Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;<br>• trafodaethau manylach â'ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio. |
| Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG | Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo'r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:<br>• Apiau TG sy'n berthnasol i adrodd ariannol;<br>• y seilwaith TG ategol (e.e. y rhwydwaith, cronfeydd data);<br>• Prosesau TG (e.e. rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);<br>• y personél TG sy'n ymwneud â'r prosesau TG.<br>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi'r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad.<br>Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i'n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen. |

| | |
|---|---|
| **Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol** | **Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys i wrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad.** |
| **Mae asesiadau risg yn gallu ehangu'n gyflym, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir** | **Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad.** |
| **Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad** | **Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad. Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio.** |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# PWYLLGOR SAFONAU
# DYDD GWENER 20 MEDI 2024

***YN BRESENNOL***:

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorydd Elfed P. Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau Annibynnol**
Sharon Warnes (Cadeirydd), Mr. Martin J. Hughes, Mr. Mark Jones;

**Swyddogion**
Mr. G. Iwan Jones, Ms. Bethan Hughes, Sarah Roberts.

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i Gynorthwyo gyda gwirio'r cofnodion.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar ei rôl newydd fel Prif Weithredwr Dros Dro. Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Cadeirydd ond cadarnhaodd y byddai'r rôl yn dod i ben unwaith y byddai Prif Weithredwr newydd wedi'i benodi. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyng. Dilwyn Owain Roberts ar ei rôl newydd gyda Chabinet Cyngor Conwy. Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai hwn oedd cyfarfod olaf Mrs. Sharon Warnes (Cadeirydd) ac , ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion cydnabu gyfraniad gwerthfawr Mrs Warnes i waith yr Awdurdod. Dywedodd y Cadeirydd mewn ymateb ei bod wedi mwynhau ei chyfnod fel Aelod o'r Pwyllgor Safonau yn fawr a dymunodd yn dda i bawb i'r dyfodol. Cynghorwyd yr Aelodau hefyd fod Mrs. Sarah Hattle, Aelod o Lywodraeth Cymru, wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Awdurdod. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod i enwebu dau aelod arall ar y Pwyllgor Safonau a chyn gynted ag y byddai tymor y Cadeirydd yn dod i ben, byddai'r Awdurdod hefyd yn hysbysebu am Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

2. **Datganiad Buddiant**
Datganodd y Cyng. Dilwyn Roberts a'r Cyng. Elfed Roberts fuddiant personol yn eitem 7 ar y Rhaglen, o dan baragraff 10(2)(a)(ix)(aa) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

Yn codi wedi hynny,

<u>Eitem 4 – Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod</u>
Cynghorodd y Cadeirydd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

Yn codi wedi hynny, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau hefyd wedi'i gynnal ym Mhencadlys y Parc

Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth a bu'n llwyddiannus ac yn dilyn trafodaethau pellach, penderfynwyd cynnal pob cyfarfod yn y Pencadlys ar ôl yr 2[il.] Hydref 2024.

Cadarnhaodd hefyd fod mewnbwn y Cadeirydd i adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a mewnbwn y Pwyllgor Safonau i Adolygiad Penn wedi'i adrodd yn flaenorol yn Adroddiad Blynyddol 2023 ac felly nid oedd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol cyfredol.

Eitem 5 – Adroddiad gan Archwilio Mewnol ar Gymorth a Ddarperir i Aelodau'r Awdurdod
Cynghorodd y Cadeirydd fod pryder y Pwyllgor Safonau ynghylch diffyg ymgysylltiad Aelodau wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Eitem 7 – Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cymru
Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd y cofnodion wedi'u cynnwys ar yr agenda ond byddai'n eu dosbarthu i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn cyfarfod heddiw. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r cofnodion i'r Aelodau a dywedodd ei fod bellach wedi'i enwi'n Fforwm Cymru Gyfan. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar Ionawr 27[ain], 2025, a chan ei bod yn annhebygol y byddai'r Cadeirydd newydd yn cael ei benodi erbyn hynny, cytunodd y Swyddogion a'r Aelodau y dylai Mr. Martin Hughes fod yn bresennol.

4. **Enwebu aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl**
**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i benodi tri Aelod a dau ddirprwy aelod i'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir, a thrafododd yr Aelodau aelodaeth y Panel yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad.**
2. **penodi'r Cyng. Elfed P. Roberts, Mr. Mark Jones a Mr. Martin J. Hughes yn Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl a phenodi'r ddau Aelod newydd o'r Pwyllgor Safonau fel aelodau dirprwyol .**

5. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i hysbysu'r Pwyllgor ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn.

**Adroddwyd** - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd fod yr adroddiad llawn fel arfer wedi'i gynnwys ar yr Agenda ond dim ond y ddolen i'r Adroddiad Blynyddol oedd wedi'i gynnwys.

Credai'r Aelodau y dylai Swyddogion a staff yr Awdurdod ymfalchïo bod cyn lleied o gwynion yn dod i law, yn enwedig oherwydd natur gwaith yr Awdurdod. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol â'r Aelodau a dywedodd fod y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn delio ag unrhyw gwynion yn effeithiol er mwyn osgoi cael eu gwneud yn gwynion ffurfiol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chofnodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor Safonau i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer am ei gwaith caled yn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mewn modd effeithlon ac amserol.**

6. **Caniatáu Goddefebau**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn argymell bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu gollyngiad cyffredinol i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a chadarnhaodd fod y goddefebau a ganiatawyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau wedi gweithio'n dda.
Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a chytunwyd i gymeradwyo'r goddefeb cyffredinol, yn unol â'r telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod gynnal ei fusnes yn effeithiol. Cynghorodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Swyddogion yn cadw golwg ar eitem lle byddai hon yn weithredol er mwyn gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau i weld sut y defnyddiwyd y Caniatád i ddefnyddio Goddefebau, ond yn anffodus nid oedd unrhyw eitemau wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD**

1. **caniatáu goddefeb i'r Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd (Sail 2[a] a [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Gwynedd hyd at 31 Rhagfyr 2025, oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan penderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31 Rhagfyr 2025.**
2. **caniatáu goddefeb i'r Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Sail 2 [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hyd at 31 Rhagfyr 2025, oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan benderfyniad o'r Pwyllgor hwn cyn Rhagfyr 31 2025.**

7. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2023/24.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer am adroddiad clir a chryno.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer nad oedd gan yr Awdurdod Weithdrefn Datrys Lleol ond dywedodd fod Swyddogion yn cael eu hannog i ddatrys unrhyw fân gwynion cyn iddynt ddod yn ffurfiol. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod mabwysiadu penderfyniad lleol yn rhywbeth i ymchwilio iddo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r staff am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.40**